GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013/14

Gwella iechyd a darparu gofal ardderchog .....

Cynnwys

	Rhif Tudalen
Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	2
Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd	3
Ansawdd a Diogelwch	4
Cadw Gwybodaeth yn Ddiogel	5
Yn Barod ar gyfer Argyfwng	7
Ein Gweithlu	8
Gofalu am ein Staff	10
Ymgysylltu â staff a Chyfathrebu â staff	11
Ystadau ac Isadeiledd – Buddsoddiad a Datblygiadau	11
Perfformiad a Chyllid	13
Ymrwymiadau Cymdeithasol	16
Ymrwymiadau Amgylcheddol	18
Gofal Cychwynnol ac Ardaloedd Lleol	20
Ymgysylltu ac Ymgynghori	21
Profiad y Claf	22
Gwella Gwasanaethau	25
Yr Iaith Gymraeg	26
Iechyd Cyhoeddus	27
Ein Bwrdd	28
Datganiadau Diddordeb Cyfarwyddwyr	30
Prif Ddatganiadau Ariannol a Nodiadau	31
Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol	36
Adroddiad yr Archwilydd	48
Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Crynodeb o Ddatganiadau Ariannol	49

Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Croeso i Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer 2013/14.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn o heriau a newid yn y Bwrdd Iechyd. Roedd yr adroddiad a gyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ym mis Mehefin 2013 yn nodi gwendidau sylweddol o ran llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Arweiniodd hyn at ymddiswyddiad y Cadeirydd, yr Is Gadeirydd a'r Prif Weithredwr. Roedd adroddiad SAC/AGIC hefyd yn destun ymchwiliad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd ei adroddiad i mewn i broblemau'r Bwrdd Iechyd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2013.

Mae llawer o waith wedi cael ei wneud dros y flwyddyn i gryfhau llywodraethu'r Bwrdd a chychwyn y broses o adennill ymddiriedaeth a hyder ein staff, cleifion a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Mae tîm arwain y Bwrdd wedi newid ac mae nifer o bobl newydd wedi cael eu penodi, gan gynnwys y Cadeirydd, Is Gadeirydd a Phrif Weithredwr. Bellach mae'r Bwrdd ar flaen y gad wrth arwain a gyrru'r newidiadau a'r gwelliannau y mae angen i ni eu gwneud.

Rydym hefyd wedi bod yn holi cleifion, staff a phartneriaid am beth y mae angen ei wella ac mae eu safbwyntiau wedi cael eu dwyn ynghyd i siapio'r amcanion clir rydym wedi'u gosod ar gyfer gwella ac adnewyddu.

Ein pwrpas craidd fel Bwrdd Iechyd yw*: gwella iechyd a darparu gofal ardderchog*. Cyfeiriad ein holl waith yw cyflawni'r nod hwn, boed yn iechyd cyhoeddus, gofal cychwynnol a chymunedol neu gomisiynu a darparu gofal ysbyty.

Yn anad dim, mae'n rhaid i ni sicrhau bod y cleifion rydym yn eu trin yn derbyn gofal diogel o ansawdd uchel, sy'n cael ei ddarparu ag urddas a thosturi ac mewn ffordd sy'n parchu eu hunaniaeth.

Nid yw'r GIG yn gallu gweithio ar ei ben ei hun ac rydym yn adnewyddu ac yn cryfhau ein gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill statudol ynghyd â'r Trydydd Sector oherwydd bod iechyd a lles pobl Gogledd Cymru yn fusnes i bawb.

Yn olaf, hoffem gydnabod ymrwymiad ein holl staff a'u gwaith caled dros y flwyddyn, a diolch iddynt am hyn.

Dr Peter Higson OBE
Cadeirydd

Yr Athro Trevor Purt
Prif Weithredwr

Ynglŷn â'r Bwrdd Iechyd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth lawn o wasanaethau cychwynnol, cymunedol, iechyd meddwl a gwasanaethau ysbyty llym ar gyfer oddeutu 678,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Rydym yn gyfrifol am weithrediad tri ysbyty llym (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam), ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymuned, canolfannau iechyd, clinigau, canolfannau timau iechyd cymuned ac unedau iechyd meddwl.

Rydym hefyd yn cydlynu gwaith 114 meddygfa teulu a'r gwasanaethau GIG y mae deintyddion, optegwyr a fferyllwyr yn eu darparu ar draws y rhanbarth.

Er mwyn helpu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a chymunedol i gydweithio yn effeithiol i gefnogi trigolion, mae gwasanaethau'r GIG y tu allan i ysbytai wedi cael eu trefnu yn 14 'ardal leol' fel a ganlyn:

- Ynys Môn
- Arfon, Dwyfor, Meirionnydd
- Gorllewin Conwy, Dwyrain Conwy
- Gogledd Sir Ddinbych, Canol/De Sir Ddinbych
- Gogledd Orllewin Sir y Fflint, De Sir y Fflint a Gogledd Ddwyrain Sir y Fflint
- Gorllewin a Gogledd Wrecsam, Tref Wrecsam, De Wrecsam

Mae gwasanaethau clinigol ar draws safleoedd yr ysbytai'n cael eu trefnu yn Grwpiau Rhaglen Glinigol (GRhGau) dan arweiniad uwch staff clinigol sy'n atebol am ansawdd a darpariaeth gwasanaethau.



Mae'r Bwrdd Iechyd ei hun yn cynnwys y Cadeirydd, Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol ac mae'n gosod cyfeiriad strategol y sefydliad. Trwy ei strwythur pwyllgorau, mae'r Bwrdd yn gweithio i sicrhau ein bod yn cadw at safonau llywodraethu da ac yn cyflawni ein targedau perfformiad. Penaethiaid Staff, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol, sy'n ffurfio'r Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n arwain rheolaeth weithredol y sefydliad.

Ansawdd a Diogelwch

Mae sicrhau bod y rheiny sydd yn ein gofal yn derbyn gofal diogel, o ansawdd uchel, yn hollbwysig i bawb ohonom, boed hynny yn y cartref, yn y gymuned neu mewn ysbyty.

Rydym yn cydnabod yr heriau y mae pob sefydliad GIG yn eu hwynebu, gan gynnwys ein sefydliad ni, a dyma pam ei bod mor bwysig ein bod yn agored ac yn onest o ran yr hyn gall cleifion ddisgwyl gan ein gwasanaeth.

Rydym wedi bod yn gwrando'n ofalus ar gleifion, staff a phartneriaid ynglŷn â'r hyn sydd angen ei wella ac mae'r safbwyntiau hyn wedi cael eu dwyn ynghyd i siapio'r amcanion clir rydym wedi'u gosod ar gyfer gwella.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynhyrchu Datganiad Ansawdd Blynyddol. Mae'n dwyn ynghyd crynodeb o sut mae'r sefydliad wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf i wella ansawdd yr holl wasanaethau y mae'n ei gynllunio ac yn ei ddarparu.

Daw'r wybodaeth yn y Datganiad Ansawdd o nifer o ffynonellau data gan gynnwys hunan-asesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn Safonau Gwasanaethau Gofal Iechyd Cymru a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gael ar ein gwefan: www.pbc.cymru.nhs.uk .

Iechyd a Diogelwch

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldebau statudol i ddiogelu iechyd a lles cleifion, ymwelwyr a staff o ddifrif. Yn ogystal â gwneud yn siŵr ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, byddwn yn cyflawni rhaglen o fonitro ac asesu risg i nodi cyfleoedd i wella (meysydd allweddol o waith). Ymhlith rhai o'r gweithgareddau a flaenoriaethwyd gennym yn ystod 2013/14 oedd:

- Ymweliadau diogelwch rheolaidd â wardiau/adrannau
- Rhoi gweithdrefnau, dyfeisiau a hyfforddiant newydd ar waith i'n galluogi i fodloni gofynion Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog mewn Gofal Iechyd) 2013
- Darparu cwrs hyfforddiant newydd ar gyfer Rheolwyr, Goruchwylwyr ac Arweinwyr Diogelwch, o'r enw 'Rheoli'n Ddiogel yn BIPBC' (Managing Safely in BCUHB)
- Parhau â rhaglen barhaus o fonitro aer ar gyfer canfod asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd drwyddo draw.

Rheoli Heintiau

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau diogel, ansawdd uchel, ac rydym yn gweithio'n galed iawn i leihau heintiau y gellir eu hosgoi gymaint â phosibl Cyflawni safonau ardderchog o ran ymarfer atal heintiau yw ein huchelgais. Dyma'r peth cywir i'w wneud i'n poblogaeth a dyma'r safon gofal y mae ein staff yn dymuno ei ddarparu.

Yn dilyn yr achosion o *Clostridium difficile* yn gynnar yn 2013, fe wnaethom gomisiynu adolygiad allanol arbenigol gan yr Athro Duerden.

Rydym wedi cyflwyno arweinwyr newydd, fel roedd yr adroddiad yn ei argymell, ac rydym wedi rhoi systemau newydd ar waith ar gyfer adnabod heintiau ac ymateb iddynt. Ar hyd y flwyddyn, mae ein staff wedi canolbwyntio ar wella safonau allweddol ymarfer clinigol a hylendid, a gwella gwrth-ficrobaidd. O ganlyniad, mae nifer yr achosion o *Clostridium difficile* wedi gostwng yn sylweddol. Ailymwelodd yr Athro Duerden â'r Bwrdd Iechyd ym mis Mai 2014, a chadarnhaodd fod cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud. Mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/opendoc/245161 .

Rydym yn parhau i gymryd rhan yn Rhaglen Wyliadwriaeth Heintiau Cymru sy'n cynnwys gwyliadwriaeth ar heintiau orthopaedig a heintiau ar ôl llawdriniaeth toriad caesaraidd. Hefyd roedd Rhaglen Wyliadwraeth Heintiau Cymru 2013 yn cynnwys heintiau gofal critigol. Mae'r canlyniadau'n dangos:

Heintiau orthopaedig - llawdriniaeth i'r glun	0.3%
Heintiau orthopaedig - llawdriniaeth i'r pen-glin	1.3%
Heintiau toriad Caesaraidd	4.7%
Heintiau cathetr fasgwlaidd canolog	0.5%
Niwmonia sy'n gysylltiedig â pheiriant anadlu	0.0%

Mae'r holl gyfraddau haint hyn yn is na chyfradd Cymru Gyfan, sy'n wybodaeth gadarnhaol i'n cleifion.

Mae canlyniadau manwl gwyliadwriaeth heintiau ar gyfer BIPBC yn cael eu cyhoeddi ar wefan Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru.

Yn 2014/15 byddwn yn parhau i wneud cynnydd o ran gweithredu i wella safonau ymhellach mewn perthynas â hylendid dwylo, safonau glanhau, gofalu am ddyfeisiau mewnwthiol ac ymarferion clinigol allweddol eraill. Rydym yn benderfynol o gyflawni safonau uchel iawn a gostwng cyfraddau heintiau i'r lefel isaf posibl.

Cadw Gwybodaeth yn Ddiogel

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn darparu sicrwydd i'r Bwrdd o ran casglu, storio a defnyddio gwybodaeth yn ddiogel gan y Bwrdd Iechyd. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi adolygu a/neu gymeradwyo polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer Diogelu Data a Chyfrinachedd, Mynediad at Wybodaeth, Diogelwch RhGaT, Gweithdrefn ar gyfer Ffotograffiaeth heb fod yn Glinigol neu Recordio Fideo/Awdio o ran Cleifion neu Staff; a Chanllawiau i staff wrth ddatgelu gwybodaeth am gleifion/gwybodaeth bersonol.

Caldicott a Chyfrinachedd

Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yw Gwarcheidwad Caldicott y Bwrdd Iechyd, sy'n sicrhau bod yr holl wybodaeth adnabyddadwy am gleifion yn cael ei thrin yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a chanllawiau Caldicott, sy'n llywodraethu cyfrinachedd yn y GIG. Mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn cefnogi'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, gan helpu, cynghori ac addysgu staff am faterion sy'n ymwneud â chyfrinachedd a diogelu data.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom unwaith eto gwblhau'r pecyn offer hunan-asesu Caldicott arlein cenedlaethol, a gwella ein cydymffurfiad i 88% gan gael gradd 4 Seren - sy'n arddangos lefel uchel o sicrwydd.

Rhyddid Gwybodaeth

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai'r holl wybodaeth heb fod yn bersonol sydd gan gorff cyhoeddus fod ar gael yn hawdd, oni bai bod cost neu eithriad yn berthnasol.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf hon a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Arian Cyhoeddus ac yn ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd trwy ein Cynllun Cyhoeddiadau.

Rydym hefyd yn derbyn ceisiadau am wybodaeth benodol gan unigolion a sefydliadau. Rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014:

- Derbyniwyd 563 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Amgylcheddol a chafodd pob un gydnabyddiaeth o fewn 2 diwrnod gwaith
- Cafodd 417 (74%) o geisiadau ymateb llawn o fewn 20 diwrnod gwaith, ac roedd ceisiadau mwy cymhleth yn golygu bod angen adalw a chasglu gwybodaeth bellach
- Derbyniwyd 8 cwyn, yn gofyn am Adolygiad Mewnol o'n hymateb
- Cafodd 6 o gwynion eu cyfeirio i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mewn perthynas ag oedi'r Bwrdd Iechyd wrth ymateb i'r cais, cafodd pob un o'r rhain ymateb o fewn 10 diwrnod pellach ac ni chyhoeddodd y Comisiynydd bod angen unrhyw weithredu pellach

Mae gwaith yn parhau ar draws y Bwrdd Iechyd i sicrhau bod y cyfraddau cydymffurfio ar gyfer ymateb o fewn y targed ugain niwrnod yn gwella. Gallwch gael manylion llawn y ceisiadau o'r Rhestr Datgeliadau ar ein gwefan.

Rhannu Gwybodaeth

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i rannu gwybodaeth yn briodol ac mewn cydymffurfiad â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ac mae holl aelodau'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi'u hyfforddi yn Hwyluswyr.

Hyfforddiant

Ar draws Gogledd Cymru rydym wedi darparu 92 sesiwn hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth i'n staff, sy'n cynnwys diogelu data, cyfrinachedd, rheoli cofnodion a gwybodaeth a diogelwch TG.

Digwyddiadau Difrifol

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) am un digwyddiad difrifol. Roedd hwn yn ymwneud ag anfon llythyr at glaf, fodd bynnag, cafodd 8 llythyr ychwanegol wedi'u cyfeirio at gleifion eraill eu cynnwys yn yr un amlen. Rydym wedi derbyn ymgymeriad drafft gan ICO sy'n canolbwyntio ar hyfforddiant staff.

Yn Barod ar gyfer Argyfwng

Mae Parodrwydd ar gyfer Argyfwng yn ymwneud â sicrhau ein bod yn barod ar gyfer unrhyw argyfwng neu ddigwyddiad mawr a fyddai'n rhoi ein gwasanaethau o dan fwy o bwysau, gan olygu nad ydynt yn gallu gweithredu yn ôl yr arfer. Mae angen i ni gynllunio ar gyfer amrywiaeth eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar iechyd neu ofal cleifion, ac ymateb iddynt. Gallai hyn fod yn unrhyw beth o amodau tywydd eithafol i achosion o glefyd heintus neu ddamwain cludiant mawr. Rydym yn Ymatebwr Categori 1 ac felly mae'n rhaid cydymffurfio â'r dyletswyddau y manylwyd arnynt yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, yn ogystal â chydymffurfio â chanllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi.

Ymhlith y dyletswyddau hyn mae:

- Rhannu gwybodaeth â'n partneriaid er mwyn gwella amddiffyniad sifil.
- Asesu risg yn ein cymunedau er mwyn datblygu trefniadau sy'n gymesur
- Datblygu cynlluniau argyfwng sy'n rheoli a lliniaru ymateb y Bwrdd Iechyd i ddigwyddiad
- Cydweithio â'n partneriaid i sicrhau ymateb cyfunol a chydlynol.
- Datblygu trefniadau rheoli parhad busnes sy'n lliniaru amharu ar wasanaethau craidd.
- Rhybuddio'r cyhoedd a rhoi gwybodaeth iddynt

Mae gennym Gynllun Argyfwng Mawr a chynlluniau ar gyfer safleoedd penodol ar gyfer ein tri ysbyty llym ym Mangor, Bodelwyddan a Wrecsam. Mae'r rhain wedi'u hintegreiddio â chynlluniau ein partneriaid ac yn disgrifio'r trefniadau a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau rheolaeth effeithiol ar ddigwyddiad sydd ar raddfa fawr, yn gymhleth neu'n esblygu. Mae'r cynllun yn manylu ar ein cyfrifoldebau strategol, tactegol a gweithrediadol a beth fuasai ein rôl ni mewn argyfwng ar raddfa fawr/digwyddiad mawr.

Hefyd mae gennym nifer o gynlluniau unigol i ddelio â bygythiadau penodol eraill i wasanaethau, fel ffliw pandemig neu achosion eraill o glefydau heintus ac amhariadau ar raddfa eang yn deillio o dywydd eithafol.

Byddwn yn cydweithio â Fforwm Lleol Gogledd Cymru Gydnerth ac asiantaethau sy'n bartneriaid i ddatblygu cynlluniau, darparu hyfforddiant ac ymarferion i staff a darparu gwybodaeth ar gyfer datblygiad cynlluniau ymateb. Rydym hefyd yn cyflawni amrywiaeth o hyfforddiant mewnol ac yn profi cynlluniau. Mae hyn i gyd yn helpu i adeiladu sgiliau a gwybodaeth ein staff clinigol, rheolaethol a gweinyddol allweddol.

Ein Gweithlu

Y Bwrdd Iechyd yw cyflogwr mwyaf Gogledd Cymru, gan gyflogi oddeutu 16,000 o bobl.

Ein staff a'n gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn y Bwrdd Iechyd, yn helpu i ddarparu gofal i bobl ar draws Gogledd Cymru, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Mae'n rhaid canmol eu hymrwymiad a'u hymroddiad i ddarparu'r gofal gorau posibl - beth bynnag bo'u rôl yn y sefydliad.

Mae galw am ein gwasanaethau yn tyfu, o ran maint a chymhlethdod. Mae angen mwy o wasanaethau yn y gymuned i helpu pobl i aros yn iach a chefnogi pobl yn eu cymunedau a'u cartrefi eu hunain. Mae angen gweithlu hyblyg ac effeithlon arnom i ddiwallu'r heriau hyn.

I gyflawni hyn, rydym yn canolbwyntio ar addysg, hyfforddiant a datblygiad y staff sydd gennym eisoes er mwyn eu cefnogi i gyflawni eu potensial llawn trwy 'ddysgu gydol oes' ac ymarferion cyflogaeth arloesol.

Mae'r gallu i recriwtio a chadw staff meddygol yn broblem benodol yn genedlaethol ac yn lleol. Ar draws Gogledd Cymru, rydym hefyd yn wynebu heriau sylweddol wrth ddenu gweithlu Meddyg Teulu cynaliadwy.

Rydym wedi ymrwymo i reoli staff yn deg ac yn effeithiol, gan sicrhau bod recriwtio, hyfforddiant, datblygiad a dyrchafiad staff yn cael eu cyflawni yn unol â deddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Mae gennym nifer o bolisïau sy'n darparu canllawiau cefnogol i reolwyr a staff, ac mae'r rhai canlynol o berthnasedd penodol:

- Polisi Urddas yn y Gweithle Cymru Gyfan
- Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Canllaw Trin Pobl Anabl yn Deg yn y Gwaith yn BIPBC
- Polisi Gweithio Hyblyg

Gwobrau Cyrhaeddiad Staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae ein staff yn gweithio'n ddiwyd i ddarparu gwasanaethau diogel i'n cleifion bob dydd. Bob blwyddyn, byddwn yn dathlu eu hymrwymiad yn ein Gwobrau Cyrhaeddiad Staff Blynyddol sy'n cael eu trefnu a'u gweinyddu gan Adran Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol. Denodd Gwobrau 2013 nifer fawr o enwebiadau ym mhob categori, gan dynnu sylw at arloes, egni ac ymrwymiad ein staff. Dyma'r enillwyr:

- **Gwella Diogelwch Cleifion:** Dewi Edwards a Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaeth
- **Tystiolaeth i Ymarfer:** Jenny Welstand, Nyrs Arweiniol Gwasanaethau Methiant y Galon
- **Cyfraniad Mwyaf Nodedig at Wella Bywyd Cleifion:** Melfyn Jones, Hyfforddwr Hyfforddiant Corfforol
- **Gwasanaethau i Ofal Iechyd Dwyieithog:** Non Thwaite a Lowri Lloyd Roberts, Therapyddion Iaith a Lleferydd
- **Cyfraniad at y Gymuned Ehangach:** Dr Duncan Cameron, Paediatregydd Ymgynghorol
- **Cyfraniad Gwirfoddol Nodedig:** Mr Dylan Lewis, Gwirfoddolwr
- **Gwobr Haydn Hughes am Gyfraniad Nodedig at y Gweithle**: David 'Dai' Richards, Swyddog Gweinyddol
- **Rhagoriaeth wrth Arwain:** Prif Nyrs Shirley Hughes, Adran Achosion Brys
- **Ffyrdd Newydd o Weithio:** Rachel Langford a Karl Jackson, Ffisiotherapyddion

- **Gweithio mewn Partneriaeth:** Clinig Cof Bodnant, Ysbyty Llandudno
- **Gwobr Dr E C Benn:** Dr P N Kurian, Seiciatrydd Ymgynghorol
- **Datblygu Cydraddoldeb:** Gordon Kennedy, David Reader a Dr Martin Jones
- **Ansawdd mewn Gofal Cychwynnol:** Trudy Anderton a Roy Wilkinson
- **Cyfraniad Nodedig at Wella Iechyd a Lles Staff yn y Gweithle:** Dr Dawn Owen, Seicolegydd

Non Thwaite a Lowri Lloyd Roberts yn derbyn eu Gwobr

Gwirfoddoli

Bellach mae gan y Bwrdd Iechyd wirfoddolwyr ers 10 mlynedd a chynhaliwyd Digwyddiad Dathlu i nodi hyn.

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Robiniaid (Gwirfoddolwyr Ward) yn unig wedi rhoi dros 30,000 awr i fentora a chyfeillio cleifion a'u perthnasau yn ystod eu harhosiad â ni. Mae yna raglen recriwtio barhaus i gynyddu nifer y Robiniaid ar ein wardiau ac ardaloedd clinigol.

Dr Peter Higson, Cadeirydd a Mrs Angela Hopkins, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, yn cyflwyno Tystysgrifau Gwasanaeth Hir i'r gwirfoddolwyr i werthfawrogi eu hamser

Dadansoddi staff yn ôl rhyw

	2013/14		2012/13	
	Gwryw	Benyw	Gwryw	Benyw
Cyfarwyddwyr	8	2	7	4
Rheolwyr (Band 8c ac uwch)	44	47	51	50
Gweithwyr	3232	13392	3222	13270

Absenoldeb Salwch

Cyfradd gronnus absenoldeb salwch ar gyfer 2013/14 oedd 5.06%. Er bod hon wedi gostwng ychydig ers cyfradd y llynedd sef 5.15% mae'n parhau i fod yn uwch na tharged Cymru Gyfan sef 4.55%

Ym mis Ionawr 2014 roedd gofyn i'r holl Fyrddau Iechyd lunio cynllun gweithredu, i Lywodraeth Cymru, er mwyn gostwng absenoldeb salwch gan o leiaf 1% erbyn Mawrth 2015. Mae ein cynllun yn canolbwyntio ar gadw at weithdrefnau absenoldeb salwch ac mae'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar pan fydd staff yn rhoi gwybod eu bod yn sâl.

Mae'r Gwasanaeth CARE yn parhau i ddarparu ymyrraeth gynnar pan fydd staff yn rhoi gwybod eu bod yn absennol oherwydd salwch. Mae ymchwil wedi dynodi bod cefnogaeth gynharach ar gyfer staff sy'n rhoi gwybod eu bod yn sâl yn allweddol wrth reoli absenoldeb salwch ac mae'n arbennig o effeithiol mewn achosion fel straen a phryder. Yn ystod 2013/14, cafodd 50.27% o absenoldebau eu cyfeirio i CARE ar gyfer ymyrraeth, a bellach canolbwyntir ar gynyddu'r ganran sy'n cael eu cyfeirio i'r 80% sy'n ofynnol i gynhyrchu gostyngiad sylweddol mewn lefelau absenoldeb salwch. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2014, derbyniodd y tîm CARE 11,176 o gyfeiriadau, roedd 90% o staff yn teimlo bod y cyngor gan y cynghorydd wedi'u helpu ac roedd y gwasanaeth yn dda ym marn 96% ohonynt.

	2013/14	2012/13
Dyddiau a gollwyd (tymor hir)	172,760	162,978
Dyddiau a gollwyd (tymor byr)	81,022	95,161
Cyfanswm y dyddiau a gollwyd	253,782	258,139
Cyfanswm blynyddoedd staff	13,850	13,859
Nifer gyfartalog y dyddiau gwaith a gollwyd	11.5	11.7
Cyfanswm nifer y staff a gyflogwyd yn y cyfnod (Cyfrif pennau)	16,041	16,083
Cyfanswm nifer y staff a gyflogwyd yn y cyfnod heb absenoldeb (Cyfrif pennau)	5,849	6,173
Canran y staff heb absenoldeb salwch	**36.4%**	**38.4%**

Gofalu am ein Staff

Er mwyn cefnogi lles staff, rydym yn parhau i edrych ar fentrau sy'n gallu gwella'r trefniadau sydd gennym ar hyn o bryd. Un fenter o'r fath oedd dull partneriaeth o weithredu â Phrifysgol Bangor i gynnal ymchwil i Ioga fel offeryn lleihau 'absenoldeb salwch' a 'lles' a bydd y darganfyddiadau yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir.

Rydym yn parhau i feddu ar Wobr Aur y Safon Iechyd Corfforaethol ar gyfer lles ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu Siarter Staff Cymru Gyfan o ran Lles.

Er mwyn parhau i frwydro yn erbyn y ffliw, mae dull newydd o ymdrin â darparu brechiadau wedi cael ei ddatblygu ac mae staff yn cael cynnig personol o frechiad y ffliw yn eu hardal waith. Roedd cyfradd y staff a gafodd frechiad rhag y ffliw yn uwch nag yn y blynyddoedd y fu, a chafodd 7226 aelod o staff (41%) eu brechu.

Cafodd y Tîm Ffliw Wobr Ymladdwyr Ffliw Cenedlaethol i gydnabod eu hymarfer arloesol.

Ymgysylltu â Staff a Chyfathrebu â Hwy

Y Fforwm Partneriaeth Lleol (LPF) yw'r mecanwaith ffurfiol y bydd rheolwyr, undebau llafur a chyrff proffesiynol yn cydweithio trwyddo i wella gwasanaeth iechyd ar gyfer pobl Gogledd Cymru.

Yn ystod 2013/14 canolbwyntiwyd ar:

- Rannu eu safbwyntiau a dylanwadu ar newid mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, Gwella Ansawdd gyda'n Gilydd, rôl Undeb Credyd Gogledd Cymru, Cynllun 3 Blynedd y Bwrdd Iechyd ac Arolwg Staff y GIG 2013
- Diweddariadau rheolaidd am gynnydd y Broses Newid Sefydliadol (OCP)
- Trafodaeth a dadlau rheolaidd mewn perthynas â chyfraddau absenoldeb salwch, pryderon staff, cyfathrebu/ymgysylltu â staff, hyfforddiant (gan gynnwys hyfforddiant Statudol a Gorfodol), Iechyd a Lles a lefelau staffio diogel.



Ystadau ac Isadeiledd – Buddsoddiad a Datblygiadau

Rydym yn darparu ein gwasanaethau o rwydwaith o glinigau, canolfannau tîm, ysbytai cymuned, prif ysbytai llym a swyddfeydd ar draws Gogledd Cymru. Roedd buddsoddiad sylweddol yn ein hystadau yn ystod 2013/14, yn ogystal â chynllunio mwy o ddatblygiad a chynlluniau gwella a fydd yn symud i'r cyfnod adeiladu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Gofal Cychwynnol

Agorwyd Canolfan Iechyd newydd Hightown yn Wrecsam ym mis Mawrth 2014, fel rhan o ddatblygiad cymunedol mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai 'Wales and West'. Agorwyd Canolfannau Gofal Cychwynnol newydd yn Y Felinheli ym mis Mehefin 2013 ac yn Harlech ym mis Tachwedd 2013. Mae gwaith adeiladu ar y gweill yn y Waun a Bwcle. Cytunwyd ar ddatblygiadau pellach yn yr Hob, Parc Caia yn Wrecsam, Bae Colwyn a Benllech. Hefyd mae arian wedi cael ei sicrhau ar gyfer Canolfan Adnoddau Gofal Cychwynnol newydd yn Llangollen.

Ysbyty Cymuned Tywyn

Cafodd achos busnes y Ganolfan Gofal Cychwynnol newydd, a ward un gwely ar bymtheg, yn Ysbyty Cymuned Tywyn ei gymeradwyo ym mis Awst 2013. Cychwynnwyd ar waith ar y cynllun hwn ar y safle yn gynnar yn ystod gwanwyn 2014 a dylai gael ei gwblhau erbyn diwedd 2015.

Prosiect Ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd

Mae'r angen i dynnu asbestos o safle Glan Clwyd wedi creu cyfle arwyddocaol i ailwampio a moderneiddio'r safle. Ers i'r prosiect hwn ddechrau rydym eisoes wedi gweld gwelliannau sylweddol o ran cyfleusterau'r ysbyty, sydd wedi gwella'r driniaeth a'r gofal a ddarperir i gleifion. Agorodd yr Adran Batholeg newydd ym mis Medi 2013. Mae'r Adran Batholeg yn cynnwys cyfleusterau labordy cyfredol ac yn canoli gwasanaethau histopatholeg o bob rhan o Ogledd Cymru.

Gwelwyd y garreg filltir nesaf pan agorwyd ym mis Mehefin 2014, y Cwadrant Achosion Brys newydd. Mae hwn yn cynnwys Gwasanaeth Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau ac Adran Achosion Brys newydd, ynghyd ag unedau ar gyfer penderfyniadau clinigol, asesu cyflym a derbyniadau llawfeddygol a meddygol tymor byr.

Hefyd, mae llawer o waith yn cael ei wneud ar isadeiledd yr ysbyty, gan gynnwys cwblhau'r gwaith fesul cyfnod o dynnu'r prif foeleri gwresogi a generaduron stêm a gosod rhai newydd yn eu lle, sy'n cynnwys gosod prif gyflenwad nwy newydd.

Labordy Cathetr Cardiaidd

Ym mis Ionawr 2013, cymeradwywyd achos busnes ar gyfer darparu gwasanaeth cardiaidd lleol a chynhwysfawr ar gyfer holl gleifion Gogledd Cymru, gan gefnogi cynlluniau'r Bwrdd Iechyd i ddychwelyd cleifion cardiaidd. Mae'r gwaith adeiladu ar y gweill a bydd y datblygiad yn cael ei gwblhau ym mis Awst 2014.

Ysbyty Llandudno

Fel rhan o'r Strategaeth Ystadau a Gwasanaethau ar gyfer datblygu Ysbyty Llandudno, mae Uned Mân Anafiadau newydd yn cael ei datblygu. Cychwynnodd gwaith ar y safle yn ystod gwanwyn 2014 a rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau yn ystod haf 2015.

Perfformiad a Chyllid

Amseroedd aros

Rydym yn deall bod lleihau amseroedd aros cleifion gymaint â phosibl yn bwysig i gleifion, o ran eu hiechyd corfforol a'u profiad o ansawdd ein gwasanaethau.

Rydym wedi gweithio gyda chleifion, meddygon, nyrsys a gweithwyr gofal iechyd eraill i ail-ddylunio taith cleifion, o'r tro cyntaf iddynt weld eu Meddyg Teulu i'r adeg pan fydd eu triniaeth yn dechrau. Rydym wedi symleiddio'r broses gyfeirio, gan wneud yn siŵr y cytunir ar y cwrs triniaeth cywir a bod cleifion yn cael eu cyfeirio i'r arbenigwr neu wasanaeth mwyaf priodol yn gynt.

Hefyd mae datblygiadau clinigol yn golygu ein bod wedi llwyddo i gynyddu nifer y cleifion rydym yn gallu eu trin yn ddiogel fel achosion dydd, â chleifion yn cael eu derbyn, yn cael eu triniaeth ac yn dychwelyd adref ar yr un diwrnod.

Mae ein cleifion mewnol yn aros yn yr ysbyty am lai o amser, a bellach mae'r rhan fwyaf yn cael eu derbyn ar ddiwrnod eu gweithred, ac mae gwell ôl-ofal a meddyginiaeth newydd yn golygu bod pobl yn gallu dychwelyd adref yn gynt.



Mae Cyfeiriad hyd Driniaeth (RTT) yn mesur cyfanswm yr amser y bydd cleifion yn aros ar ôl iddynt gael eu cyfeirio gan feddyg nes iddynt ddechrau ar eu triniaeth weithredol mewn ysbyty. Mae hyn yn cynnwys amser sy'n cael ei dreulio yn aros am apwyntiadau cleifion allanol, profion diagnostig, sganiau, gwasanaethau therapi a derbyniadau cleifion mewnol neu achos dydd.

Dyma'r ddau darged ar gyfer Cymru:

- Bod 95% o gleifion yn cael eu trin o fewn 26 wythnos
- Nid yw unrhyw glaf yn aros am fwy na 36 wythnos

Dyma ein perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn: oedd 88.9% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos ac roedd 2,991 claf yn aros mwy na 36 wythnos. Rydym yn benderfynol o wella perfformiad a lleihau amseroedd aros ar gyfer cleifion.

Mae gennym gynlluniau manwl i wella amseroedd aros ar gyfer cleifion dros y 3 blynedd nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu cynhyrchiant ein theatrau llawdriniaeth yn ddiogel; cynnig mwy o ddewis o gleifion o ran lleoliadau triniaeth mewn ysbytai Gogledd Cymru ac ar draws Gogledd Orllewin Lloegr. Rydym yn ailddylunio llwybr cleifion fel bod rhai cleifion yn gallu mynd yn syth i gael profion diagnostig yn hytrach nag aros am apwyntiad claf allanol yn gyntaf; a sesiynau ymgynghorwyr ychwanegol i gynyddu'r gallu i drin cleifion.

Mae'r cynlluniau yn cynnwys y gofynion ar gyfer staff cefnogol i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n ddiogel i'n cleifion.

Amseroedd aros ar gyfer cleifion â chanser

Rydym bob amser yn gweithio i leihau amseroedd aros ar gyfer cleifion gydag amheuaeth, neu ddiagnosis, o ganser. Rydym yn gwybod bod cael diagnosis o ganser yn sioc, hyd yn oed pan fydd meddygon wedi rhybuddio bod hyn yn bosibilrwydd. O ganlyniad, rydym yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y cleifion hyn yn cael y profion a'r driniaeth y mae eu hangen arnynt yn gyflym.



Mae hyn yn golygu rhoi'r cyfle i'n cleifion ddeall y math o ganser sydd ganddynt, gwneud synnwyr o'r opsiynau triniaeth sydd ar gael, sgil-effeithiau posibl a deall y gefnogaeth y mae gwasanaethau iechyd yn ei chynnig. Ar ddiwedd mis Mawrth 2014 fe wnaethom drin 91.0% o gleifion a oedd wedi cael diagnosis o ganser o fewn 62 diwrnod.

Fe wnaethom yn well o lawer yn achos cleifion a oedd wedi cael diagnosis o ganser, ond ni amheuwyd bod ganddynt ganser ar adeg y cyfeiriad cyntaf, â mwy na 98% o gleifion yn dechrau triniaeth o fewn y targed 31 diwrnod ar gyfer 10 allan o'r 12 mis yn ystod y flwyddyn.

Rydym wedi gweithio'n galed i leihau amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau cyntaf yn ystod y flwyddyn. Rydym wedi adolygu ein clinigau a'n prosesau er mwyn i gleifion gallu cael eu gweld gan feddyg â'r cymwysterau addas yn yr arbenigedd cywir yn gyflym. Rydym wedi cynyddu nifer y cleifion sy'n cael eu sganio ar ein peiriannau CT a MRI ac rydym yn trin cleifion endosgopi ychwanegol. Rydym hefyd yn ymgymryd â threialon clinigol newydd a fydd yn profi pa mor llwyddiannus yw cyffuriau newydd wrth drin cleifion canser.

Adran Achosion Brys

Ni ddylai cleifion aros am fwy na phedair awr gael eu trin, eu trosglwyddo neu eu derbyn i ysbyty. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 85% o gleifion a fynychodd Adrannau Achosion Brys eu gweld o fewn 4 awr, o'u cymharu â chyfartaledd Cymru sef 88% a'r targed sef 95%. Rydym yn cymryd rhan yng Ngrŵp Cydweithredol Llifoedd Cenedlaethol ac rydym wedi derbyn cefnogaeth gan yr Uned Gyflenwi i wella ein perfformiad mewn perthynas â gofal heb ei drefnu, perfformiad trosglwyddo ysbyty ac ambiwlans.

Gweithgaredd

Mae nifer y cleifion mewnol sy'n achosion brys sy'n cael eu gweld mewn ysbytai ar draws Gogledd Cymru wedi parhau i gynyddu. Roedd cyfanswm o 1.27 miliwn o ymweliadau gan gleifion ac mae'r tabl isod yn dangos mwy o fanylion ynglŷn â'r rhain. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys cyswllt â chleifion mewn gofal cychwynnol (meddygfeydd, fferyllfeydd cymunedol, deintyddfeydd lleol ac optegwyr) sy'n cyfrif am dros 90% o holl weithgareddau'r GIG.

	2013/14	2012/13
Derbyniadau Dewisol: Cleifion Allanol ac Achosion Dydd	**48,202**	46,522
Derbyniadau Brys: Cleifion Mewnol	**88,548**	84,045
Cleifion Allanol Newydd (gan gynnwys Adran Achosion Brys ac Adran Mân Anafiadau)	**408,374**	408,792
Adran Achosion Brys: Mynychu am y tro cyntaf	**208,252**	210,737
Cleifion Allanol Dilynol (gan gynnwys Adran Achosion Brys ac Adran Mân Anafiadau)	**453,370**	446,164
Cleifion Dydd sy'n Mynychu'n Rheolaidd	**39,088**	42,951
Mân Weithredoedd Cleifion Allanol	**2,804**	2,178
Endosgopi	**18,403**	17,475

Adolygiad Ariannol

Rydym yn cael ein hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ac yn derbyn dyraniadau blynyddol ar gyfer gwariant refeniw (ein costau rhedeg) a chyfalaf (buddsoddiad mewn adeiladau, cyfleusterau a chyfarpar). Y dyraniad refeniw ar gyfer 2013/14 oedd £1.23 biliwn a'r dyraniad cyfalaf oedd £43.6 miliwn.

Mae gennym ddyletswydd statudol i weithredu o fewn y dyraniadau hyn a chyflawni cydbwysedd ariannol ym mhob blwyddyn ariannol. Rydym hefyd yn derbyn rhywfaint o incwm gweithredu mewn perthynas â gwasanaethau ychwanegol, gan gynnwys darparu gwasanaethau i gyrff eraill y GIG, awdurdodau lleol ac addysg ac ymchwil.

Eto roedd 2013/14 yn flwyddyn heriol iawn oherwydd pwysau ehangach yr economi a chyllid cyhoeddus yn gyffredinol. Ynghyd â gweddill y GIG yng Nghymru, byddwn yn wynebu heriau yn y dyfodol wrth i ni ymdrechu i fodloni gofynion darparu gofal iechyd diogel ac effeithiol o fewn cwmpas ariannol cyfyngedig. Mae darparu gwasanaethau diogel yn parhau i fod ar frig blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd.

Rydym yn ddiolchgar am ymroddiad, proffesiynoldeb a chefnogaeth ein staff, partneriaid a rhanddeiliaid wrth reoli ein hadnoddau o fewn ein cyfyngiadau statudol.

Ar gyfer 2014/15, bydd y dyraniad cyllid yn aros yn statig yn fras o'i gymharu â 2013/14. Wrth i effaith gronnus y mesurau llymder gael ei harddangos yn y diffyg sylfaenol i'w gario ymlaen, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i reoli ei wasanaethau'n ddiogel ac yn effeithiol o fewn ei gwmpas ariannol. Bydd hyn yn golygu bod angen cyflawni arbedion sylweddol yn gylchol er mwyn sicrhau na fydd iechyd ariannol y Bwrdd Iechyd yn cael ei gyfaddawdu.

Rydym yn canolbwyntio ar gynhyrchiant ac effeithlondeb, gan gynnwys hyd arhosiad mewn ysbyty, cyfraddau llenwi gwelyau, gwneud y defnydd mwyaf posibl o amser theatrau llawdriniaeth a chynyddu cyfran y cleifion y gallwn eu trin fel achosion dydd.

Targedau Perfformiad Ariannol

Cyflawnwyd 3 o'r 4 targed perfformiad ariannol statudol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod, yr eithriad oedd y tan-gyflawni yn erbyn targed 95% Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus. Isod ceir crynodeb o'n perfformiad mewn gwirionedd:

Cyflawni cydbwysedd ariannol gweithrediadol yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw

- Targed: peidio â mynd y tu hwnt i'r terfyn adnoddau refeniw y mae Llywodraeth Cymru wedi'i osod sef £1.23 biliwn
- Cafodd hyn ei gyflawni â thanwariant bach o £2,000. Fodd bynnag, cafodd hyn ei gyflawni â £2.25 miliwn o froceriaeth ad-daladwy ychwanegol

Cyflawni cydbwysedd ariannol gweithrediadol yn erbyn Terfyn Adnoddau Cyfalaf

- Targed: sicrhau na fydd y rhaglen gyfalaf yn mynd y tu hwnt i'r terfyn adnoddau cyfalaf sef £43.6 miliwn
- Cafodd hyn ei gyflawni â thanwariant bach o £9,000

Polisi Talu'r Sector Cyhoeddus

- Targed: Talu 95% o anfonebau heb fod yn rhai'r GIG (yn ôl nifer) o fewn 30 diwrnod
- Ni chafodd hyn ei gyflawni, talwyd 94.5% o anfonebau o fewn 30 diwrnod

Rheoli Arian Parod

- Targed: Meddu ar gydbwysedd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn rhwng dim a £4.1 miliwn
- Cafodd hyn ei gyflawni â chydbwysedd arian parod ar ddiwedd y flwyddyn o £1.147 miliwn

Ymrwymiadau Cymdeithasol

Cymru o Blaid Affrica

Mae'r Bwrdd wedi cael blwyddyn brysur yn datblygu'r gwaith pwysig o ddatblygiad a phartneriaeth ryngwladol â'n partneriaid yn Affrica. Mae ein Pwyllgor Partneriaeth Rhyngwladol yn parhau i fod yn fforwm ar gyfer rhannu arfer gorau ac adrodd arno yn ogystal â datblygu cyfeiriad strategol i'r gwaith pwysig.

Mae'r Bwrdd yn cefnogi ei brif brosiectau yn ogystal ag unigolion a grwpiau llai sy'n rhoi o'u hamser a doniau i'r gwaith pwysig hwn. Roedd Gwobrau Cyrhaeddiad Staff BIPBC yn cydnabod gwaith:

Dr. D. Cameron a gafodd wobr am *'gyfraniad at y gymuned ehangach'* am ei arweiniad ac ymrwymiad i'n partneriaeth ag Ysbyty Hosanna, Ethiopia.

Dr. B. Kurian a gafodd Wobr *EC Benn* am ei waith gan gynnwys arwain cyfraniadau elusennol ac eglwysig at Ganolfan Anableddau Dysgu yn India.

Newyddion ein Prosiectau .....

Dolen Ysbyty Gwynedd / Ysbyty Dosbarth Quthing (Lesotho)

Mae'r ddolen hon wedi gweld datblygiadau mawr yn ystod y 12 mis diwethaf mewn nifer o ffyrdd. Bellach mae'r grŵp wedi datblygu yn bartneriaeth ehangach sy'n cynnwys Dolen Cymru, Prifysgol Bangor, Iechyd Cyhoeddus Cymru a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd unigol fel Meddygon Teulu. Yn dilyn ymweliad asesu yn gynnar yn 2013, mae'r ddolen wedi llwyddo i gael grant o £16,000 gan Cymru o Blaid Affrica i ddatblygu'r prosiect ymhellach a datblygu a chyflwyno hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau bydwreigiaeth a gweithwyr iechyd yn y pentref.

Mae meddyg a bydwraig wedi bod yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu pecyn hyfforddiant ac maent hefyd wedi darparu rhan o'r hyfforddiant hwnnw yn ystod yr ymweliad cyntaf. Bydd tîm mwy yn mynd allan yn ystod hydref 2014 a gwanwyn 2015 i ddarparu pecyn hyfforddiant llawer ehangach.

Dolen Ysbyty Glan Clwyd / Ysbyty Hossana (Ethiopia)

Mae'n ddolen hon wedi parhau i fod yn weithgar iawn eleni. Ymwelodd cyfarwyddwr meddygol Hossana ag Ysbyty Glan Clwyd ym mis Medi 2013, gan ymweld â llawer o aelodau o staff a rhoi cyflwyniadau trawiadol iawn ynglŷn â Hossana.

Ymwelodd grŵp o chwe aelod o staff BIPBC â Hosanna ym mis Mawrth 2014 am wythnos. Cyflwynwyd cwrs addysgu dwys tri diwrnod o hyd am drawma, paediatreg a gofal i'r newydd-anedig i fwy na 140 o hyfforddeion. Aethom â pheiriant uwchsain ac uwchsonograffydd o Ysbyty Glan Clwyd a hyfforddwyd staff dros gyfnod o 5 diwrnod.

Mae'r bloc toiledau newydd bellach wedi cael ei gwblhau - mae gweithgareddau codi arian Ysbyty Glan Clwyd wedi ariannu 80% ohono, gan gynnwys stondinau cacen, arwerthiannau cist car, stondin yn y cyntedd a Her 3 Chopa Cymru yn fwyaf diweddar.

Dolen Ysbyty Maelor Wrecsam / Ysbyty Yirga Alem

Yn ystod ein hymweliad diwethaf ag Ysbyty Yirga Alem Hospital (YYA) gwnaethpwyd y gwaith canlynol:

- Darparu hyfforddiant cynnal bywyd
- Gwahanu achosion heintus ac achosion heb fod yn heintus
- Darparu siacedi llachar ar gyfer teithio diogel

Roedd llawer o'r heriau yn strwythurol a systemig a buasent yn cael budd o gynnwys staff ystadau a chadw tŷ yn y prosiect. Bellach mae'r prosiect wedi datblygu DVD o'i waith partneriaeth ac rydym yn gobeithio y bydd hwn yn annog pobl eraill i fod yn ehan o'r gwaith pwysig hwn.

Ymrwymiadau Amgylcheddol

Fel rhan o'n hymrwymiad corfforaethol tuag at yr amgylchedd rydym yn rhoi System Reoli Amgylcheddol (EMS) ar waith, a ddyluniwyd i gyflawni'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Datblygiad cynaladwy
- Cydymffurfiad â gofynion y Llywodraeth a gofynion cyfreithiol perthnasol
- Atal llygredd
- Lleddfu effaith newid yn yr hinsawdd
- Diwylliant o welliant parhaus

I wneud yn siŵr bod gennym reolaeth amgylcheddol effeithiol, byddwn yn ymgymryd â'r prosesau canlynol:

- Hybu'r polisi amgylcheddol i bob rhanddeiliaid perthnasol
- Dynodi holl agweddau amgylcheddol sylweddol a'r gofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â nhw, gan gynnwys y rheiny sy'n deillio o newid mewn gwasanaeth a deddfwriaeth newydd
- Sefydlu a monitro amcanion a thargedau sy'n ceisio lleihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol, yn unol â'r rheiny y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cyhoeddi
- Darparu hyfforddiant priodol i bob personél perthnasol
- Archwiliadau mewnol ac allanol rheolaidd
- Y Grŵp Llywio Amgylcheddol i adolygu effeithiolrwydd yr EMS yn rheolaidd
- Gweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni dull cyson yn y sector cyhoeddus o ymdrin â rheolaeth amgylcheddol a sicrhau bod gweithdrefnau arfer gorau yn cael eu nodi a'u rhoi ar waith

Mae'r tablau canlynol yn crynhoi ein perfformiad yn 2013/14, sy'n cael ei fesur gan set o ddangosyddion allweddol, y mae'n ofynnol i ni eu cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol:

Allyriadau Nwy Tŷ Gwydr

		2011/12	2012/13	2013/14
Dangosyddion heb fod yn Ariannol	Cyfanswm yr Allyriadau Gros (tC02)	46,228	46,819 (+1.3%)	45,469 (-2.9%)
	Cyfanswm yr Allyriadau Net (tC02)	46,228	46,819 (+1.3%)	45,469 (-2.9%)
	Cwmpas 1 Allyriadau Gros (uniongyrchol) (tC02) Nwy ac Olew	22,753	22,983 (+1.0%)	21,549 (-6.2%)
	Cwmpas 2 a 3 Allyriadau Gros Dewis (Anuniongyrchol)* (tC02)	23,475	23,836 (+1.5%)	23,920 (+0.3%)
Defnydd o Ynni mewn Perthynas â hyn (miliwn KWh)	Trydan: Anadnewyddadwy (£)	0	0	0
	Trydan: Contract Cyflenwad Trydan 'Gwyrdd' Adnewyddadwy (£)	23,475	23,836 (+1.5%)	23,920 (+0.3%)
	Nwy (tC02)	20,602	22,156 (+7.5%)	21,001 (-5.2%)
	LPG (tC02)	0	0	0
	Arall (Olew) (tC02)	2,151	827 (-61.6%)	548 (-33.7%)
Dangosyddion Ariannol (£ miliwn)	Gwariant ar Ynni	£7,648,489	£8,829,339 (+15.4%)	£8,841,771 (+0.1%)
	Gwariant Trwydded CRC (2010 ymlaen)**	0	0	£950
	Gwariant ar ddulliau gwrthbwyso achrededig (e.e. GCOF)**	0	0	0
	Gwariant ar deithio busnes swyddogol	£10,379,738	£10,094,811 (-2.7%)	£10,234,059 (+1.4%)

Gwastraff

		2011/12	2012/13	2013/14
Dangosyddion heb fod yn Ariannol (tunelli metrig)	Cyfanswm Gwastraff	4,029	4,059 (+0.7%)	4,089 (+0.7%)
	Claddu sbwriel	1,548	1,192 (-22.9%)	1,042 (-12.6%)
	Ailddefnyddio / Ailgylchu	992	1,147 (+15.6%)	1,392 (+21.3%)
	Wedi compostio	0	0	0
	Wedi darlosgi ac ynni wedi'i adfer	0	0	0
	Wedi darlosgi heb adfer ynni	199	215 (+8.0%)	232 (+7.9%)
Dangosyddion Ariannol (£ miliwn)	Cyfanswm Cost Gwaredu	£1,011,723	£1,061,763 (+4.9%)	£1,187,778 (+11.8%)
	Claddu sbwriel	£220,635	£212,083 (-3.8%)	
	Ailddefnyddio / Ailgylchu	£59,244	£78,585	£167,072
	Wedi compostio	0	0	0
	Wedi darlosgi ac ynni wedi'i adfer	0	0	0
	Wedi darlosgi heb adfer ynni	£143,943	£148,222 (+2.8%)	£161,116 (+8.6%)

Defnyddio Adnoddau

Defnydd o Adnoddau y mae pen draw iddynt			2011/12	2012/13	2013/14
Dangosyddion heb fod yn Ariannol (000m^3)	Defnydd o Ddŵr (Popeth)	Cyflenwyd	530,375	457,704 (-13.7%)	466,518 (+1.9%)
		Tynnwyd	0	0	0
		Fesul FTE			
Defnydd o Ynni mewn Perthynas â hyn (miliwn KWh)	Defnydd o Ddŵr (Ystadau heb fod yn Swyddfeydd)	Cyflenwyd	0	0	0
		Tynnwyd	0	0	0
Dangosyddion Ariannol (£ miliwn)	Costau Cyflenwi Dŵr (Popeth)		£1,111,318	£1,208,722 (+8.7%)	£1,216,846 (+3.2%)
	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystadau heb fod yn Swyddfeydd)		0	0	0

Crynodeb o Welliannau Ynni a Gwastraff 2013/14

Cyflawnodd y Bwrdd Iechyd darged Llywodraeth Cymru bod pob Ysbyty Cyffredinol Dosbarth yn cyflawni ardystiad i'r BS EN ISO14001:2004 System Reoli Amgylcheddol (EMS) cydnabyddedig erbyn mis Rhagfyr 2012. Yn dilyn hyn, cafodd pob Ysbyty Cymuned eu hardystio i'r safon ym mis Rhagfyr 2013. Y cyfnod targed terfynol yw cyflwyno'r EMS i Ganolfannau Iechyd erbyn mis Rhagfyr 2014.

Hefyd eir ar drywydd trefniadau partneriaeth a rhannu gwybodaeth â chyrff cyhoeddus eraill fel rhan o ddatblygiad parhaus ein Strategaeth Lleihau Carbon.

Dyma'r prosiectau rheoli ynni, dŵr a gwastraff a gynhaliwyd yn ystod 2013/14:

- Strategaethau a gweithdrefnau casglu data'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) Corfforaethol: mae'r gwaith paratoi wedi cael ei gwblhau a chafodd Cofrestriad Cyfnod 2 CRC ei gwblhau ym mis Ionawr 2014

- Mae gwaith ailwampio'r brif ganolfan ynni wedi cael ei gwblhau yn Ysbyty Glan Clwyd.
- Datgelodd ymchwiliad i ddefnydd gormodol o ddŵr yn Uned Arennol Ysbyty Maelor Wrecsam mai achos hyn oedd Cyfarpar Osmosis Gwrthdro aneffeithlon.
- Mae staff cynnal a chadw gweithrediadol wedi mynd ati i olrhain a thrwsio dŵr sy'n gollwng yn yr ystad yn ystod y flwyddyn, yn llwyddiannus
- Mae'r Adran Datblygu Ystadau yn parhau i ad-drefnu'r asedau ystadau corfforaethol
- Mae gwaith ar y gweill i osod peiriannau newydd yn lle peiriannau oeri aneffeithlon math R22 fesul cam ar draws yr ystad
- I gynorthwyo'r Bwrdd Iechyd wrth leihau'r gwastraff sy'n cael ei gladdu, rydym wedi penodi contractwr sy'n ailgylchu gwastraff i ffwrdd o'r safle
- Mae technoleg trin gwastraff anaerobig ac aerobig wedi cael ei harchwilio yn unol â'r Papur Gwyn Amgylcheddol RE5 – Gwaredu gwastraff bwyd i lawr draen
- Er mwyn lleihau'r gwastraff sy'n cael ei gladdu, rydym wedi cynyddu ein cyfradd ailgylchu gan fwy na 30% ac wedi penodi contractwr gwastraff newydd, felly dylai cyfraddau ailgylchu gynyddu ymhellach

Mae gan y Bwrdd Iechyd Gynllun Teithio Gwyrdd. Mae gan y Polisi Ceir ar Brydles derfyn uchaf cychwynnol o 140g/km ar gyfer ceir newydd ac ar brydles, a therfyn o 120g/km ar gyfer ceir cyfun. Bydd y terfynau hyn yn cael eu gostwng yn gyfnodol wrth i welliannau cael eu gwneud o ran allyriadau cerbydau.

O ran adeiladu cynaladwy, rydym wedi mabwysiadu gofyniad corfforaethol bod pob cynllun prosiect adeiladu o'r newydd sy'n bodloni'r meini prawf yn cael eu hadeiladu yn unol â safon ragoriaeth BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladau). Ymhlith prosiectau diweddar mae gosod boeler bio-màs mawr a gosod to 'gwyrdd' ar ysbyty cymuned newydd ac aráe generadu ffotofoltäig mewn cyfleuster newydd i gleifion allanol. Mae adroddiadau achos busnes ar gyfer gwaith adeiladu yn ystyried elfennau cynaladwyedd fel rhan hanfodol o werthusiadau prosiect.

Gofal Cychwynnol ac Ardaloedd Lleol

Mae dros 90% o gyswllt â chleifion yn y gwasanaeth iechyd yn digwydd mewn gofal cychwynnol: meddygfeydd teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddfeydd lleol ac optegwyr.

Yng Ngogledd Cymru mae yna fwy na 456 o Feddygon Teulu, yn gweithio o 114 practis a 62 meddygfa cangen yn ogystal â 154 o fferyllfeydd, 87 practis optometreg â 274 o optegwyr a 268 o ddeintyddion yn darparu gwasanaethau'r GIG mewn 99 o ddeintyddfeydd. Mae'r rhain yn fusnesau neu'n gontractwyr annibynnol sydd â chontractau â'r Bwrdd Iechyd i ddarparu gwasanaethau i gleifion y GIG.

Er na fyddwn yn cyflogi darparwyr gofal cychwynnol yn uniongyrchol, fel Bwrdd Iechyd rydym yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod eu gwasanaethau yn bodloni anghenion cleifion, yn bodloni safonau ansawdd a diogelwch ac am gydlynu eu gwaith â rhannau eraill o'n gwasanaethau cymuned ac ysbyty.

Mae pob contractwr annibynnol yn gysylltiedig ag un o'r pedair ar ddeg ardal leol rydym wedi'u sefydlu, a'n partneriaid mewn awdurdodau lleol a'r trydydd sector, ar draws Gogledd Cymru.

Eir ati i annog practisau i weithio'n agosach â'i gilydd.

Mae gan bob ardal leol Feddyg Teulu arweiniol, Metron Ardal Leol, Fferyllydd, Therapydd, Gweithiwr Cymdeithasol a chynrychiolydd y Sector Gwirfoddol sy'n cyfarfod i adolygu a chynllunio gwasanaethau yn eu cymunedau lleol. Eu prif amcanion yw:

- Hybu iechyd da ar hyn o bryd a hefyd helpu i sicrhau bywydau iachach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Gwella addysg cleifion fel bod gan bobl fwy o reolaeth dros reoli eu cyflyrau
- Cefnogi pobl â chyflyrau tymor hir, gan sicrhau bod mwy o ofal ar gael yn agos at eu cartrefi yn hytrach nag ar brif safleoedd ysbyty

Dyma enghreifftiau o'r newidiadau a wnaethpwyd yn 2013/14:

- Ymestyn y gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref ar draws pob ardal leol yng Ngogledd Cymru
- Gwasanaethau gwrthfiotig mewnwythiennol a thrallwysiadau gwaed yn y gymuned
- Hyrwyddwyr Dementia mewn Meddygfeydd
- Gwaith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i hybu gwasanaethau rhoi'r gorau i 'smygu mewn fferyllfeydd cymunedol
- Datblygu gwasanaethau ‘tele-adsefydlu’ o bell, gan roi mynediad at feddygon a staff iechyd eraill i gleifion heb fod angen teithio
- Gwelliannau sylweddol mewn cyfraddau brechiadau plentyndod a'r ymateb i'r ymgyrch brechiad tymhorol rhag y ffliw
- Gwasanaethau newydd mewn Meddygfeydd i gefnogi diagnosis clefyd yr ysgyfaint a'i reoli

Rydym yn parhau i weithio i roi mwy o fynediad at wasanaethau Meddyg Teulu a deintyddol i bobl. Yn ystod 2013/14 mae nifer o Feddygfeydd Teulu wedi gwella eu mynediad yn ystod amser cinio a bellach ni fydd meddygfeydd mwy yn cau am hanner diwrnod. Bellach mae contractau deintyddol newydd a ddyfarnwyd y llynedd wedi cychwyn yn llawn ac mae Contractau Orthodontig Gofal Cychwynnol Arbenigol ar waith.

Ymgysylltu ac Ymgynghori: Cynnwys Pobl yn ein Cynlluniau

Mae gan y Bwrdd Iechyd, ynghyd â holl sefydliadau eraill y gwasanaeth iechyd, ddyletswydd statudol (cyfreithiol) i gynnwys pobl ac ymgynghori â hwy wrth gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, nid y ddyletswydd gyfreithiol yw'r unig reswm ei bod yn bwysig i ni gynnwys pobl – cleifion, gofalwyr a theuluoedd, grwpiau cymunedol lleol a llawer o bobl eraill; rydym yn gallu cynllunio gwasanaethau yn well a'u darparu yn fwy effeithiol os byddwn yn gwybod am anghenion a safbwyntiau pobl leol.

Nid ydym bob amser yn gallu bodloni dymuniadau pawb – ond mae clywed beth mae pobl yn ei feddwl a’i angen yn gallu helpu i siapio'r gwasanaethau y byddwn yn eu darparu. Weithiau mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd am wasanaethau ac mae angen i ni drafod â phobl leol ynglŷn â pham fod angen gwneud y penderfyniadau hyn.

Hefyd mae angen i ni sicrhau ein bod yn clywed gan bobl sydd wedi'u dynodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys pobl iau a phobl hŷn; dynion, merched a phobl trawsryweddol; pobl â phroblemau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu; gwahanol grwpiau ethnig neu ffydd; pobl hoyw, lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol. Byddem yn hoffi gwella sut rydym yn siarad â'r grwpiau hyn yn enwedig, a byddem yn croesawu clywed gennych os bydd gennych unrhyw awgrymiadau i'w gwneud.

Yn 2013/14 parhawyd i weithredu rhai o'r newidiadau yr ydym wedi ymgynghori arnynt eisoes:

- Parhau i gyflwyno'r Gwasanaeth Gofal Ychwanegol yn y Cartref ar draws Gogledd Cymru
- Cafodd rhai o'r Gwasanaethau Pelydr-X ac Unedau Mân Anafiadau llai eu stopio a chafodd adnoddau eu crynhoi ar nifer lai o safleoedd i sicrhau gwasanaeth mwy cyson
- Rydym wedi bod yn datblygu cynlluniau, sy'n cael eu cefnogi gan gyflwyniad achosion busnes i Lywodraeth Cymru, ar gyfer canolfannau gofal iechyd newydd ym Mlaenau Ffestiniog, y Fflint a Llangollen i wella gwasanaethau cymunedol ar ôl cau'r ysbytai cymuned bach yn yr ardaloedd hyn. Rydym yn parhau i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer ysbyty cymuned newydd a datblygiad Gofal Ychwanegol yn y Cartref i gymryd lle rhywfaint o'r gofal roeddynt yn ei ddarparu. Mae achos busnes Canolfan Gofal Iechyd Cychwynnol Llangollen wedi cael ei gymeradwyo ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £4 miliwn ar gyfer y datblygiad hwn. Rydym yn aros i'r ddau ddatblygiad arall gael eu cymeradwyo
- Rydym yn parhau i ddatblygu cynlluniau manwl ar gyfer ysbyty cymuned newydd yn y Rhyl i gymryd lle hen Ysbyty Cymuned Prestatyn ac Ysbyty Brenhinol Alexandra
- Rydym wedi datblygu mwy o wasanaethau cymunedol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion iechyd meddwl i'w helpu i aros yn eu cartrefi ac yn annibynnol am gyfnod hirach, ar ôl cytuno'n ffurfiol i gau dwy uned fach i gleifion mewnol yn Ne Gwynedd, nad ydynt wedi bod ar agor ers cryn amser
- Cafodd gofal nifer fach iawn o fabanod, oddeutu 36 y flwyddyn ar gyfer Gogledd Cymru gyfan, ei drosglwyddo i Ysbyty Arrowe Park ar Gilgwri fel ein bod yn gallu bod yn siŵr eu bod yn derbyn y lefel o ofal sy'n ofynnol. Ceir gwasanaeth cludiant arbennig i helpu mamau a babanod i gyrraedd Arrowe Park yn ddiogel. Mae Prif Weinidog Cymru wedi comisiynu adolygiad annibynnol i weld a allwn ddarparu rhywfaint o'r gofal hwn yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol, sydd wedi pennu mai Ysbyty Glan Clwyd dylai gael ei ddatblygu i ddarparu rhywfaint o'r gofal arbenigol hwn mewn Canolfan Gofal Dwys Newydd-anedig Isranbarthol. Byddwn yn datblygu'r achos busnes ar gyfer y gwasanaeth hwn
- Nid yw'r gwaith o grynhoi llawdriniaeth fasgwlaidd fawr a chymhleth mewn nifer lai o ysbytai wedi cael ei ddarparu eto, wrth i ni weithio ar fanylion sut fydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu

Rydym yn gwybod nad yw rhai o'r newidiadau hyn wedi bod yn boblogaidd yn gyffredinol, yn enwedig mewn cymunedau lle mae'r gwasanaethau lleol wedi cael eu newid. Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod y gwasanaethau newydd yn bodloni anghenion bobl yn y ffordd rydym yn credu. Byddwn yn monitro'r gwasanaethau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan? Os hoffech gael eich cynnwys ar y gronfa ddata o bobl y byddwn yn rhoi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau mawr, neu gymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau a allai effeithio ar eich ardal leol, anfonwch eich enw a manylion cyswllt at jointhedebate@wales.nhs.uk .

Profiad y Claf

Byddwn yn derbyn cwynion, pryderon, sylwadau a chanmoliaeth gan gleifion, eu ffrindiau a'u perthnasau a chynrychiolwyr gan gynnwys Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad, Cynghorau Iechyd Cymuned ac eiriolwyr. Mae'r wybodaeth a gawn o bryderon ac ymchwiliadau yn cael ei defnyddio i'n helpu i wella ein gwasanaethau a'n helpu i fodloni disgwyliadau ein cleifion.

Mae'n bwysig bod ein cleifion, eu teuluoedd neu eu gofalwyr yn gallu dweud wrthym am eu profiadau. Mae adborth, da neu ddrwg, yn ein helpu i wneud gwelliannau. Rydym yn derbyn adborth mewn nifer o ffyrdd:

Cardiau Sylwadau

Cardiau sylwadau yw un ffordd y gallwn ymateb yn gyflym i broblemau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn derbyn oddeutu 70 y mis, llawer ohonynt yn canmol staff neu wasanaethau. Dyma enghreifftiau o weithredu mewn ymateb i gardiau sylwadau:

- Newidiadau i amseroedd ymweld yn Ysbyty Glan Clwyd i sicrhau na fydd amseroedd prydau ac amseroedd ymweld yn gwrthdaro
- Gwella dewis prydau i gleifion yn ystod gwyliau banc

Arolygon Cleifion

Yn ystod 2013 cyhoeddwyd canlyniadau dau arolwg ar raddfa fawr, wedi'u cynnal gan sefydliad annibynnol, yn cynnwys bron i 4000 o gleifion a oedd wedi cael gwasanaethau fel claf mewnol neu glaf allanol.

Arolwg Eich Profiad Chi o'r GIG

Yn ystod mis Awst 2013, cyflwynwyd yr arolwg 'Eich Profiad Chi o'r GIG'. Arolwg Cymru Gyfan yw hwn a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod cleifion yn cael y cyfle i ddarparu adborth yn fuan ar ôl eu profiadau o ofal.

Arolygon Preifatrwydd ac Urddas

Ym mis Mehefin 2013 cawson ddarganfyddiadau arolwg o 867 o gleifion mewnol. Adroddodd 31% nad oeddent bob amser yn cael preifatrwydd wrth drafod gwybodaeth sensitif. O ganlyniad, mae timau clinigol yn codi ymwybyddiaeth o'r angen i fynd â chleifion i rywle preifat ar gyfer sgyrsiau sensitif.

Pan fyddwn yn ailwampio wardiau, fel yn Ysbyty Glan Clwyd, mae'r angen am ddigon o fannau preifat wedi cael ei ystyried.

Yn yr arolygon hyn, dywedodd cleifion wrthym fod angen i ni:

- Wella hylendid dwylo
- Lleihau amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol
- Rhoi gwybod iddynt y rheswm am amseroedd aros hir
- Darparu gwybodaeth sy'n glir ac yn hawdd ei deall
- Lleihau sŵn ar wardiau
- Stopio llety cymysg ei ryw
- Cynyddu lefelau staffio
- Gwella ansawdd a dewis y bwyd sydd ar gael
- Gwella'r sefyllfa parcio

Mae'r holl faterion hyn yn cael sylw ar draws y Bwrdd Iechyd.

"Roedd pob aelod o staff gwnes i daro arnynt yn broffesiynol iawn, yn gwrtais ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi bob amser."

"Roedd y ddwy nyrs a fu'n gofalu amdanaf cyn ac ar ôl fy llawdriniaeth yn anhygoel"

Beth ydym ni'n ei wneud i wella profiad y claf?

- Er mwyn gwella profiad y claf, rydym wedi adolygu lefelau staffio nyrsys ac wedi recriwtio staff nyrsio ychwanegol.
- Wedi sicrhau bod Adrannau Cleifion Allanol ac Adrannau Achosion Brys yn arddangos amseroedd aros cyfredol ar hysbysfyrddau
- Sefydlu Fforwm Adran Cleifion Allanol i ddatblygu nifer o gamau gwella
- Cynnal Gweithdai Cynllunio Rhyddhau i staff i godi ymwybyddiaeth, rhannu gwybodaeth a gwella trefniadau rhyddhau i gleifion

Gweithio i wella

Mae Rheoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 yn manylu ar y ffordd y bydd sefydliadau'r GIG yng Nghymru yn rheoli cwynion, hawliadau a digwyddiadau (sy'n cael eu galw'n bryderon gyda'i gilydd). Maent yn darparu un dull cyson ar gyfer graddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys yr unigolyn sy'n codi'r pryder a darparu iawn pan fo hynny'n briodol.

Efallai na fydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'r niwed mae toriad mewn dyletswydd gofal darparwr gofal cychwynnol wedi'i achosi.

Mae ein staff yn parhau i dderbyn hyfforddiant ar y dull hwn o weithredu, ac maent yn cael eu cefnogi i ddatrys unrhyw broblemau fel maent yn codi a bod yn agored os bydd rhywbeth wedi mynd o chwith.

Pan fydd ymchwiliadau yn nodi bod yna wersi i'w dysgu, bydd cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith i ymateb i'r rhain a byddant yn cael eu monitro yn rheolaidd nes bod tystiolaeth ar gael i ddangos bod yr holl weithredoedd wedi cael eu cwblhau.

Yn ystod 2013/14:

- Derbyniwyd 8,664 canmoliaeth
- Derbyniwyd 2,196 cwyn anffurfiol (cafodd 1,316 eu cau o fewn 48 awr)
- Derbyniwyd 1,743 pryder ffurfiol; cafodd 95% o'r rhain gydnabyddiaeth o fewn 2 diwrnod gwaith
- Cafodd 489 (28%) o bryderon ffurfiol ymateb llawn o fewn 30 diwrnod gwaith; roedd 954 (55%) o bryderon ffurfiol yn ymwneud ag achosion mwy cymhleth a oedd yn cymryd mwy o amser i ymchwilio iddynt a a chawsant ymateb llawn ar ôl mwy na 30 diwrnod gwaith
- Cyfeiriwyd 68 pryder at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er mwyn iddo ymchwilio iddynt
- Adroddodd staff ar 17,941 digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion, o'r rhain roedd 16,026 (89%) yn perthyn i gategori na fyddai'n achosi niwed neu'n achosi mân niwed yn unig; cafodd y digwyddiadau hynny mewn categori ei bod yn bosibl, yn debygol neu'n debygol iawn y byddent yn achosi niwed eu hymchwilio i'r lefel briodol a chafodd gwersi eu dysgu lle roedd hynny'n ofynnol
- Derbyniwyd 286 o hawliadau cyfreithiol ffurfiol newydd; roedd 235 yn hawliadau esgeulustra clinigol ac roedd 51 yn hawliadau anaf personol; daeth 148 hawliad i ben yn ystod y flwyddyn

Gwella Gwasanaethau

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwelliant ar draws ein holl wasanaethau trwy hyfforddi ein staff, darparu gofal a seiliwyd ar dystiolaeth a rhannu arfer da.

IQT 'Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd'

Wedi'i seilio ar waith y 'Qulturum' yn Jonkoping (system gofal iechyd Sweden sy'n enwog am eu gwaith gwella ansawdd) ac mewn ymateb i ofyniad Cymru Gyfan i weithredu fframwaith ar gyfer darparu hyfforddiant gwella ansawdd i bob disgyblaeth o staff gofal iechyd, rydym wedi datblygu rhaglen hyfforddiant helaeth Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd (Improving Quality Together (IQT)) ar draws Gogledd Cymru.

Hyd yma, rydym wedi bod yn arweiniol wrth ddatblygu maes llafur IQT ar lefel genedlaethol ac rydym wedi hyfforddi'r rhan fwyaf o staff yn genedlaethol ar lefelau Efydd ac Arian. Rydym wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol am ansawdd y prosiectau gwella mae'r hyfforddiant wedi'u cynhyrchu.

1000 o Fywydau i

Rhaglen wella Cymru Gyfan yw cydweithredfa 1000 o Fywydau i sy'n helpu staff clinigol y rheng flaen i wella gwasanaethau i gleifion. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwella Gofal Llym: Sicrhau bod cleifion â salwch llym yn cael eu hasesu a'u trin yn gyflym. Mae'r gwaith yn cynnwys defnyddio systemau rhybuddio cynnar i adnabod y claf sy'n dirywio

- Gwella Arweinyddiaeth i Wella Ansawdd: Mae hyn yn cynnwys ymweliadau â wardiau ac adrannau i drafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â diogelwch allai fod gan y staff, er mwyn gallu gweithredu yn brydlon

- Gwella Gofal Llawfeddygol: Gweithio gyda chleifion a'u gofalwyr er mwyn eu paratoi ar gyfer llawdriniaeth, sy'n gallu eu helpu i wella'n gynt ac yn fwy diogel

- Gofal Cychwynnol a Gofal Cymunedol: Ymhlith enghreifftiau mae gwaith ar reoli ac atal codymau a 'bywyd ar ôl strôc'

- Iechyd Meddwl: Mae amgylchedd addas ar gyfer gofalu am gleifion dementia yn hanfodol i'w hadferiad, felly bellach mae gan rhai wardiau ddrysau lliw, sy'n helpu cleifion â dementia i wybod lle maen nhw ac yn lleihau eu straen

Gwobrau'r Academi Gofal Iechyd Darbodus

Ar 6 Chwefror cafodd cynrychiolwyr tîm Adferiad Cyflym Orthopaedig Ysbyty Maelor Wrecsam eu cyflwyno â thystysgrif am gyrraedd rowndiau terfynol Gwobrau Academi Gofal Iechyd Darbodus 2014 yn Leeds. Roedd hyn dan y categori 'Gwelliant Parhaus' am y gwaith a wnaethpwyd wrth weithredu a chynnal rhaglen adferiad cyflym ar gyfer cleifion arthroplasteg y glun a'r pen-glin.

Yr Iaith Gymraeg

Eleni gwelwyd datblygiadau cyffrous yn y Bwrdd Iechyd o ran y Gymraeg yn dilyn cyhoeddiad Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, Mwy Na Geiriau. Mae'r Fframwaith wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth gwasanaeth Cymraeg i sicrhau ein bod yn rhagweithiol wrth gynnig gwell gwasanaethau i gleifion.

Mae'r Hyrwyddwyr Iaith Gymraeg ar draws y sefydliad yn parhau i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ym mhob agwedd ar ddarpariaeth gwasanaethau mewn adrannau unigol.

Cynhaliwyd seminarau ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ar draws y sefydliad, ac yn dilyn llwyddiant cwrs magu hyder Cymraeg y llynedd, sicrhawyd nawdd i ganiatau i 50 aelod o staff gael cyfle i gynyddu eu hyder i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gwaith.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd pob cyfle i hybu'r defnydd o'r Gymraeg ac roedd stondinau ym mhob un o'r tri phrif ysbyty ar ddiwrnod y Bathodyn (Iaith Gwaith), Diwrnod Su'mae a Dydd Gŵyl Dewi.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd stondin lwyddiannus iawn yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych, yn cyfathrebu negeseuon iechyd i'r nifer fawr o ymwelwyr a fynychodd yn ystod yr wythnos. Cafodd y cyhoedd gyfle i archwilio ymgyrch newydd 'Meddwl am Iechyd Meddwl' y Bwrdd Iechyd sy'n cynnig cefnogaeth a gwybodaeth ddwyieithog i blant a phobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl.

Cynhaliwyd Cynhadledd a Gwobrau'r Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2013 yn Llandudno. Enillodd Dr Chris Goodman, meddyg yn Ysbyty Maelor Wrecsam, wobr Dysgwr y Flwyddyn ac roedd datblygiad adnoddau Makaton Cymraeg gan Therapyddion Iaith a Lleferydd yn llwyddiannus hefyd.

Iechyd Cyhoeddus

Mae dangosyddion allweddol yn parhau i ddangos bod iechyd a lles cyffredinol poblogaeth Gogledd Cymru yn dda o'u cymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, mae amrywiadau yn parhau o ran deilliannau iechyd rhwng gwahanol ardaloedd a chymunedau, ac mewn rhai achosion mae anghydraddoldebau o'r fath yn cynyddu, fel disgwyliad oes iach. Mae gweithio mewn partneriaeth sy'n gryf a chydlynol yn allweddol i ddarpariaeth gyffredinol gwelliannau o ran statws iechyd y boblogaeth, yn enwedig o ran dylanwadu ar y ffactorau hynny sy'n dylanwadu ar iechyd pobl nad ydynt o fewn cylch gorchwyl y GIG yn uniongyrchol.

Roedd Adroddiad Blynyddol ein Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus ar gyfer 2013 yn parhau'r patrwm o ganolbwyntio ar wahanol gyfnodau bywyd. Dan y teitl "Oedolion Cydnerth a Dyfeisgar: Ymagwedd yn Seiliedig ar Asedau", mae'r adroddiad hwn yn dilyn dull o weithredu gwahanol wrth fframio blaenoriaethau iechyd y boblogaeth ar gyfer oedolion oed gweithio.

Mae'n pwysleisio gwerth perthyn i rwydweithiau cymdeithasol ar gyfer lles, a'r ffaith bod sut rydym yn teimlo ynglŷn â'n hunain yn cael effaith uniongyrchol ar y mathau o ddewisiadau byddwn yn eu gwneud yn ein bywydau, gan gynnwys ein ffordd o fyw, ac yn ein galluogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb am ein hiechyd ein hunain. Bydd y dull o weithredu hwn, y mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ei gydnabod fel arfer gorau, yn darparu gwybodaeth fwyfwy ar gyfer ein gwaith yn y dyfodol.

Imiwneiddiad

Mae'r cynnydd parhaus o ran nifer yr unigolion sy'n cael imiwneiddiadau mamolaeth a phlentyndod yn llwyddiant nodedig yng Ngogledd Cymru. Mae perfformiad tymor hir y Bwrdd Iechyd yn erbyn y targedau yn parhau i ddangos gwelliant cyson ar gyfer pob grŵp oed.

Y nifer sy'n cael brechiadau yn BIPBC ar gyfer pob oedran, amserlen imiwneiddiadau plentyndod Ionawr - Mawrth 2014 (Ffynhonnell: COVER 110)



Yn dilyn yr achosion o'r frech goch yn Abertawe, yn ystod 2013/14 roedd pwyslais sylweddol ar gynyddu'r nifer sy'n cael brechiad MMR ar draws Gogledd Cymru, â pwyslais penodol ar blant 10-18 oed y mae'n bosibl eu bod wedi methu eu rhaglen frechu.

Mae'r ymgyrch dal i fyny wedi cynyddu'r nifer sy'n cael MMR 1 ymhlith plant 10–18 oed o 95.1% ym mis Tachwedd 2012 i 96.2% ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r nifer sy'n cael MMR 2 yn yr un garfan oed wedi cynyddu o 88.9% ym mis Tachwedd 2012 i 91.2% ym mis Gorffennaf 2013.

Ein Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am ddarparu gofal iechyd a gwella iechyd a lles poblogaeth Gogledd Cymru. Mae'n atebol i Lywodraeth Cymru trwy'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd sy'n cael ei gefnogi gan Aelodau Annibynnol a'r Prif Weithredwr sy'n cael ei gefnogi gan Gyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr sy'n Aelodau Cysylltiol y Bwrdd. Penodir y Cadeirydd a'r Aelodau Annibynnol o'r gymuned leol oherwydd yr arbenigedd penodol gallant ei gynnig wrth redeg y Bwrdd Iechyd. Mae'r Cyfarwyddwyr yn weithwyr llawn amser sy'n gyfrifol am reolaeth weithredol y Bwrdd Iechyd.

Yn ystod 2013/14, oherwydd newidiadau yn yr uwch dîm rheoli, cafodd nifer o swyddi ar lefel y Bwrdd eu llenwi dros dro gan uwch aelodau o staff y Bwrdd Iechyd. Mae'r Bwrdd yn mynd trwy gyfnod o newid â nifer o benodiadau parhaol newydd, gan gynnwys yr Athro Matthew Makin, Cyfarwyddwr Meddygol, Mrs Margaret Hanson, Is Gadeirydd sydd wedi cychwyn yn eu swyddi yn ystod y cyfnod hwn. Cychwynnodd yr Athro Trevor Purt, Prif Weithredwr, yn ei rôl ym mis Mehefin 2014.

Hefyd ceir Aelodau Cysylltiol sy'n cynrychioli'r Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Mae gan y Bwrdd Iechyd saith Pwyllgor sy'n goruchwylio agweddau penodol ar fusnes y Bwrdd:

- Archwilio
- Cyllid a Pherfformiad
- Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol
- Deddf Iechyd Meddwl
- Ansawdd a Diogelwch
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Cronfeydd Elusennol

Gan y Pwyllgor Archwilio mae'r rôl allweddol o gynghori a chynnig sicrwydd i'r Bwrdd fod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu effeithiol a phenderfynu cadarn yn unol â'r safonau llywodraethu da sy'n ofynnol gan y GIG yng Nghymru.

Aelodau'r Pwyllgor yw Dr Christopher Tillson (Cadeirydd), y Parch Hywel M Davies, Ms Jenie Dean a Mr Keith McDonogh. Mae pob un o'r rhain yn Aelodau Annibynnol y Bwrdd. Nid yw'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn aelodau o'r Pwyllgor, ond maent yn mynychu, yn ogystal â swyddogion eraill yn cynnwys cynrychiolwyr o Archwilio Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru a'r Gwasanaeth Gwrth Dwyll Lleol. Mae tri Phwyllgor Ymgynghorol (y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid a'r Fforwm Partneriaeth Lleol) yn darparu mwy o graffu, sicrwydd, cynnwys ac ymgysylltu i'r Bwrdd. O dro i dro mae'r Bwrdd yn adolygu perfformiad, gweithredoedd ac effeithiolrwydd ei Bwyllgorau.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn disgrifio ein trefniadau llywodraethu, strwythur pwyllgorau a'r system rheolaeth fewnol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am:

- Ein trefniadau i reoli risg
- Prosesau sicrwydd ac ansawdd
- Llywodraethu corfforaethol gan gynnwys cynnydd ar roi Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru ar waith
- Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gael ar ein gwefan: www.pbc.cymru.nhs.uk .

O 31 Mawrth 2014 ymlaen

Cadeirydd

Dr Peter Higson

Aelodau Annibynnol

Mrs Margaret Hanson
(Is Gadeirydd)

Y Parch Hywel Davies

Ms Jenie Dean

Mrs Marian Wyn Jones

Mr Keith McDonogh

Mr Harri Owen-Jones

Cyng Elizabeth Roberts

Mrs Hilary Stevens

Dr Christopher Tillson

Cyfarwyddwyr

Mr Geoff Lang
Prif Weithredwr Dros Dro

Yr Athro Matthew Makin
Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol

Mrs Angela Hopkins
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion

Mr Bob Evans
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro

Mr Martin Jones
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol

Ms Sally Baxter
Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Dros Dro

Mr Andrew Jones
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus

Mr Tim Lynch
Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro

Mrs Grace Lewis-Parry
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu

Datganiadau Diddordeb Cyfarwyddwyr

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw ddiddordeb sydd ganddynt a allai effeithio ar eu gallu i fod yn ddiduedd o ran eu gwaith yn y Bwrdd Iechyd.

Yn y rhestr isod mae'r Cyfarwyddwyr a'r Aelodau Bwrdd canlynol wedi datgan eu diddordebau ar gyfer 2013/14:

Yr Athro Merfyn Jones (01/04/13 – 06/10/13)	Cadeirydd, Coleg Cymraeg Cenedlaethol Ymddiriedolwr, Ymddiriedolaeth Syr Clough Williams Ellis
Dr Peter Higson (07/10/13 – 31/03/14)	Brawd Dr Ruth Hussey, Prif Swyddog Meddygol Cymru
Dr Lyndon Miles (01/04/13 – 31/08/13)	Partner, Meddygfa Bron Derw, Bangor
Mr Harri Owen-Jones	Llywydd Age Concern, Gogledd Ddwyrain Cymru Aelod Bwrdd Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir y Fflint
Mrs Hilary Stevens	Ymddiriedolwr a Phwyllgor Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru Ymddiriedolwr Cyngor Gwirfoddol Cymunedol Sir Ddinbych Aelod Pwyllgor Apêl Canser Ron a Margaret Smith Ymddiriedolwr Croesffyrdd Gogledd Cymru Perchennog/Perchennog Rhannol Eyarth Hall (*sefydliad a allai gynnal busnes â'r GIG)* Cyfarwyddwr Unity Creative Cyf Cyfarwyddwr LTL International Management
Dr Christopher Tillson	Partner Meddyg Teulu, Canolfan Iechyd Bodnant, Bangor
Mrs Marian Wyn Jones	Cyfarwyddwr Cysylltiol, Tower Media Training Cyfarwyddwr, Canolfan Gerdd William Mathias Cysylltiadau â'r cyrff gwirfoddol, neu gyrff eraill, canlynol a allai gontractio am wasanaethau GIG: Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri Coleg Prifysgol Bangor Awdurdod S4C - Cyngor Celfyddydau Cymru
Cyng Elizabeth Roberts	Cynghorydd Sir ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Ms Jenie Dean	Mae aelod o'i theulu yn gweithio i Brifysgol Bangor
Mr Geoff Lang (Prif Weithredwr Dros Dro) 27/05/13 – 31/03/14)	Llywodraethwr Coleg Iâl, Wrecsam Aelod o Gorff Llywodraethu Cysgodol – Coleg Cambria
Yr Athro Matthew Makin (01/01/14 – 31/03/14)	Yn darparu cymorth meddygol achlysurol i Hosbis Dŷ Eos

	Wedi derbyn grant addysg feddygol oddi wrth Cepahlon (cwmni biofferyllol) yn ystod y flwyddyn ariannol
Mr Martin Jones	Ar secondiad i Lywodraeth Cymru am 1½ - 2 diwrnod yr wythnos rhwng 01/04/13 a 30/09/13 fel Cyfarwyddwr Gweithlu Dros Dro, GIG Cymru
Mr Tim Lynch (01/10/13 – 31/03/14)	Mewn rôl barhaol fel Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Iarlles Caer sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â thrafod telerau contractau â'r Bwrdd Iechyd
Mr Andrew Jones	Ei wraig yn gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Ymddiredolwr Dolen Cymru
Mr Bob Evans (29/10/13 – 31/03/14)	Mae gan ei wraig uwch swydd barhaol yn Llywodraeth Cymru, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cynnwys monitro ariannol Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau
Mr John Day (15/05/13 – 30/09/13)	Cynghorydd 'Action on Hearing Loss' Cymru

Nid yw unrhyw aelodau eraill o'r Bwrdd Iechyd wedi darparu Datganiadau Diddordeb mewn partïon perthnasol yn ystod y cyfnod. Ni dderbyniwyd datganiadau wedi diweddaru oddi wrth Mrs M Burrows na Mr C Sparkes a oedd yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd am ran o flwyddyn ariannol 2013/14.

Prif Ddatganiadau Ariannol a Nodiadau

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gynhyrchu set o ddatganiadau ariannol blynyddol yn defnyddio fformat sy'n gyffredin i bob corff GIG yng Nghymru. Mae'r datganiadau blynyddol yn destun archwiliad a darperir barn archwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Paratowyd Datganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd yn unol â'r fformat a'r amserlen a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y cyfrifon yn destun archwiliad allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru a rhoddwyd barn archwilio ddiamod arnynt ar 24 Mehefin 2014.

Mae tystysgrif Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cadarnhau bod y datganiadau ariannol cryno hyn yn gyson â'r cyfrifon llawn y rhoddwyd y farn archwilio arnynt.

Mae'r datganiadau ariannol cryno a ddangosir yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr (yn cynnwys Cyflawni Balans Ariannol Gweithredol a Therfyn Adnoddau Cyfalaf)
- Datganiad o Sefyllfa Ariannol
- Datganiad o Newid yn Ecwiti Trethdalwyr
- Datganiad Llif Arian

Nid yw'r datganiadau ariannol cryno yn cynnwys digon o wybodaeth i roi dealltwriaeth lawn o sefyllfa a pherfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd. Mae set lawn o ddatganiadau ariannol cyfunol ar gael drwy wneud cais i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro yn yr Adran Gyllid, Ysbyty Maelor Wrecsam, Blwch Post 860, Wrecsam LL13 7LJ.

Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014

	2013/14 £'000	2012/13 £'000
Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol	**283,898**	283,816
Gwariant ar Ofal Iechyd gan Ddarparwyr Eraill	**284,247**	284,255
Gwariant ar Ysbytai a Gwasanaethau Iechyd yn y Gymuned	**780,444**	808,720
	1,348,589	1,376,791
Llai: Incwm Amrywiol	**117,905**	117,463
Costau gweithredu net y BILl cyn llog ac enillion a cholledion eraill	**1,230,684**	1,259,328
Buddsoddiad		
Incwm	0	0
(Enillion) / Colledion Eraill	**(46)**	(77)
Costau cyllid	**151**	173
Costau gweithredol net am y flwyddyn ariannol	**1,230,789**	1,259,424

Cyflawni Balans Ariannol Gweithrediadol

Dyma berfformiad y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014:

	2013/14 £'000	**2012/13 £'000**
Costau gweithredol net am y flwyddyn ariannol	1,230,789	1,259,424
Llai Gwariant annewisol	1,637	1,940
Llai Canlyniadau refeniw dod â chynlluniau PFI ar SoFP	0	0
Costau gweithredol net llai gwariant annewisol a chanlyniadau refeniw PFI	**1,229,152**	**1,257,484**
Terfyn Adnoddau Refeniw	1,229,154	1,257,489
Tanwariant / (gorwariant) yn erbyn Terfyn Adnoddau Refeniw	**2**	5

Terfyn Adnoddau Cyfalaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gadw o fewn ei Derfyn Adnoddau Cyfalaf:

	2013/14 £'000	**2012/13 £'000**
Gwariant cyfalaf gros	46,414	34,508
Ychwanegu: Colledion o waredu asedau a roddwyd	0	0
Llai llyfrwerth net o waredu eiddo, peiriannau mawr a chyfarpar ac asedau anniriaethol	(932)	(1,871)
Llai grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	0	0
Llai rhoddion a dderbyniwyd	(1,933)	(1,295)
Cost yn erbyn Terfyn Adnoddau Cyfalaf	43,549	31,342
Terfyn Adnoddau Cyfalaf	43,558	31,362
(Gorwario) / Tanwario yn erbyn Terfyn Adnoddau Cyfalaf	9	20

	31 Mawrth 2014 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
Asedau anghyfredol		
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	473,406	450,861
Asedau anniriaethol	1,768	1,360
Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill	48,499	44,272
Asedau ariannol eraill	0	0
Asedau eraill	0	0
Cyfanswm asedau anghyfredol	523,673	496,493
Asedau cyfredol		
Rhestrau eiddo	**13,627**	12,509
Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill	**44,588**	38,836
Asedau ariannol eraill	**0**	0
Asedau eraill	**0**	0
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	**1,147**	417
	59,362	51,762
Asedau anghyfredol a ddosbarthir fel 'Yn cael eu dal i'w gwerthu'	**1,755**	1,207
Cyfanswm asedau cyfredol	**61,117**	52,969
Cyfanswm asedau	**584,790**	549,462
Rhwymedigaethau cyfredol		
Masnach ac eitemau taladwy eraill	**111,714**	110,670
Rhwymedigaethau ariannol eraill	**0**	0
Darpariaethau	**24,561**	23,119
Rhwymedigaethau eraill	**0**	0
Cyfanswm dyledion cyfredol	**136,275**	133,789
Asedau / (rhwymedigaethau) cyfredol net	**(75,158)**	(80,820)
Rhwymedigaethau anghyfredol		
Masnach ac eitemau taladwy eraill	**1,264**	1,326
Rhwymedigaethau ariannol eraill	**0**	0
Darpariaethau	**49,629**	47,446
Rhwymedigaethau eraill	**0**	0
Cyfanswm dyledion anghyfredol	**50,893**	48,772
Cyfanswm asedau a ddefnyddiwyd	**397,622**	366,901
Ariannwyd gan:		
Ecwiti trethdalwyr		
Cronfa Gyffredinol	**357,043**	332,242
Cronfa ailbrisio	**40,579**	34,659
Cyfanswm Ecwiti Trethdalwyr	**397,622**	366,901

Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014

	Cronfa Gyffredinol * £'000	Cronfa Ailbrisio Cadw £'000	Cyfanswm Cronfeydd Cadw £'000
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2013/14			
Balans ar 1 Ebrill 2013	332,242	34,659	366,901
Costau gweithredol net am y flwyddyn	(1,230,789)	0	(1,230,789)
Ennill / (colled) net ar ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar	0	6,537	**6,537**
Ennill / (colled) net ar ailbrisio asedau anniriaethol	0	0	**0**
Ennill / (colled) net ar ailbrisio asedau ariannol	0	0	**0**
Ennill / (colled) net ar ailbrisio asedau a ddaliwyd i'w gwerthu	0	0	**0**
Lleihad yng ngwerth a gwrthdroadau	0	0	**0**
Symudiadau mewn cronfeydd eraill	0	0	**0**
Trosglwyddo rhwng cronfeydd	617	(617)	**0**
Rhyddhau cronfeydd i SoCNE	0	0	**0**
Trosglwyddo i BILlau / oddi wrthynt	0	0	**0**
Cyfanswm cydnabyddedig incwm a gwariant ar gyfer 2013/14	(1,230,172)	5,920	**(1,224,252)**
Arian net Llywodraeth Cymru	1,254,973	0	**1,254,973**
Balans ar 31 Mawrth 2014	357,043	40,579	**397,622**

Datganiad Llif Arian am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2014

	2013/14 £'000	2012/13 £'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu		
Cost weithredol net am y flwyddyn ariannol	**(1,230,789)**	(1,259,424)
Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio	**(9,897)**	(7,953)
Addasiadau llif arian eraill	**44,118**	90,737
Darpariaethau a ddefnyddiwyd	**(13,954)**	(12,556)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu	**(1,210,522)**	(1,189,196)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar	**(45,821)**	(33,900)
Elw o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar	**978**	1,948
Prynu asedau anniriaethol	**(811)**	(183)
Elw o waredu asedau anniriaethol	**0**	0
Taliad ar gyfer asedau ariannol eraill	**0**	0
Elw o waredu asedau ariannol eraill	**0**	0
Taliad ar gyfer asedau eraill	**0**	0
Elw o waredu asedau eraill	**0**	0
Mewnlif / (all-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi	**(45,654)**	(32,135)
Mewnlif / (all-lif) arian net cyn ariannu	**(1,256,176)**	(1,221,331)
Llif arian o weithgareddau ariannu		
Arian Llywodraeth Cymru (gan gynnwys cyfalaf)	**1,254,973**	1,219,718
Derbyniadau cyfalaf a ildiwyd	**0**	0
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	**1,933**	1,295
Elfen gyfalaf taliadau mewn perthynas â phrydlesau cyllid ac ar-SoFP	**0**	0
Arian a drosglwyddwyd (i) / oddi wrth gyrff eraill y GIG	**0**	0
Ariannu net	**1,256,906**	1,221,013
Cynnydd / (lleihad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb	**730**	(318)
Arian parod a'r hyd sy'n cyfateb (a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill 2013	**417**	735
Arian parod a'r hyd sy'n cyfateb (a gorddrafftiau banc) ar 31 Mawrth 2014	**1,147**	417

Cod Ymarfer Gwell Taliadau

Mae'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru bod Byrddau Iechyd yn talu eu holl gredydwyr masnach yn unol â Chod Talu'n Brydlon CBI a Rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth. Fel rhan o dargedau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod gofyniad i dalu 95% o nifer y credydwyr heb fod yn y GIG o fewn 30 diwrnod i ddarpariaeth. Ar gyfer 2013/14, mae'r Bwrdd Iechyd wedi tangyflawni yn erbyn y targed hwn, fel y manylir isod:

	2013/14 Nifer	2013/14 £'000	2012/13 Nifer	2012/13 £'000
GIG				
Cyfanswm y biliau a dalwyd	**5,358**	**222,526**	5,905	214,316
Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed	**5,031**	**220,075**	5,245	210,379
Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed	**93.9%**	**98.9%**	88.8%	98.2%
Heb fod yn y GIG				
Cyfanswm y biliau a dalwyd	**252,713**	**556,247**	232,721	289,344
Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed	**238,858**	**543,026**	222,806	278,117
Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed	**94.5%**	**97.6%**	95.7%	96.1%

Cyfanswm				
Cyfanswm y biliau a dalwyd	**258,071**	**778,773**	238,626	503,680
Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed	**243,889**	**763,101**	228,051	488,496
Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed	**94.5%**	**98.0%**	95.6%	97.0%

Rhwymedigaethau Pensiwn

Mae darpariaeth Cynllun Pensiwn y GIG yn cwmpasu gweithwyr presennol a chyn-weithwyr.

Cynllun cenedlaethol heb ei ariannu, buddion diffiniedig ydyw sy'n cwmpasu cyflogwyr y GIG, meddygfeydd teulu a chyrff eraill, a ganiateir dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol. O ganlyniad nid yw'n bosib i'r Bwrdd Iechyd ddynodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Felly, mae Datganiad Cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr o 14% o gyflog pensiynadwy.

Cyfanswm cost pensiwn yn berthnasol i 2013/14 oedd £58,617,000..

Mae manylion pellach am y cynllun pensiwn ar gael yn y cyfrifon blynyddol llawn sydd ar gael ar gais i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Dros Dro (gweler manylion cyswllt ar dudalen 31).

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae cydnabyddiaeth ariannol Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau uchel iawn eraill y Bwrdd Iechyd, ynghyd ag agweddau eraill o'u telerau ac amodau gwasanaeth, yn cael ei bennu gan Bwyllgor Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol y Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn ariannol, cafodd y Pwyllgor ei gadeirio gan Gadeirydd y Bwrdd Iechyd, yr Athro Merfyn Jones (a Dr Peter Higson o fis Hydref 2013) ac mae'n cynnwys yr Aelodau Annibynnol Dr Lyndon Miles, Ms Jenie Dean, Mr Keith McDonogh, Mr Harri Owen-Jones, Dr Christopher Tillson a Mrs Margaret Hanson. Mae'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol hefyd wedi mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Bydd cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a rhai'r dyfodol yn dilyn cyfarwyddebau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd cyflogau eu pennu gan Lywodraeth Cymru trwy'r system Gwerthuso Swyddi JESP fel rhan o Raglen Diwygio GIG yn 2009. Ni fu unrhyw gynnydd blynyddol ers y dyddiad hwnnw.

Mae pob swydd yn destun i Reoli Perfformiad, ond nid oes yr un elfen benodol o'r cyflog yn gysylltiedig â pherfformiad, naill ai ar ffurf ychwanegiad at y cyflog craidd ynteu gadw peth o'r cyflog craidd.

Mae'r system Rheoli Perfformiad Unigol yn dilyn yr hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi ei gyhoeddi ac wedi'i orchymyn fel rhan o raglen Diwygio GIG 2009.

Mae pob contract yn barhaol, â chyfnod o 3 mis o rybudd ymadael. Sefydlwyd yr amodau gan Lywodraeth Cymru fel rhan o raglen Diwygio'r GIG 2009.

Tablau Cyflog a Phensiwn

Enw a Theitl	2013/14					2012/13				
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	**Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £**	**Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000**	**Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf) £'000**	**Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol) £'000**	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol) £'000
Mary Burrows Prif Weithredwr (01/04/13-16/12/13)	**395-400**	**2,200**	**72**	**465-470**	**200-205**	200-205	4,000	46	250-255	200-205
Mr G Lang Prif Weithredwr Dros Dro (27/05/13-31/3/14) Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (01/04/13-31/03/14)	**155-160**	**0**	**217**	**375-380**	**160-165**	130-135	0	31	160-165	125-130
Mrs H Simpson Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (01/04/13-28/10/13)	**75-80**	**3,600**	**47**	**125-130**	**135-140**	135-140	6,000	(30)	110-115	
Mr B Evans Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (29/10/13-31/3/14)	**45-50**	**0**	**146**	**195-200**	**110-115**					
Mr M Scriven Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol (01/04/13-05/09/13)	**70-75**	**100**	**(294)**	**(220-225)**	**165-170**	160-165	(200)	(84)	75-80	

Enw a Theitl	2013/14					2012/13				
	Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000**	**Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** **£**	**Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** **£'000**	**Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf)** **£'000**	**Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol)** **£'000**	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol) £'000
Dr M Duerden* Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol Dros Dro (01/04/13-31/12/13)	**105-110**	**0**	**(18)**	**90-95**	**145-150**	65-70	0	(13)	50-55	145-150
Dr P Birch Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol Dros Dro (08/10/13-31/12/13)	**40-45**	**0**	**0**	**40-45**	**185-190**					
Yr Athro M Makin Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol (01/01/14-31/3/14)	**40-45**	**1,500**	**69**	**110-115**	**165-170**					
Mrs R Cartmell Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion Dros Dro (01/04/13-31/05/13)	**15-20**	**0**	**106**	**120-125**	**100-105**	5-10	0	(10)	(4)	80-85
Mrs A Hopkins Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion (01/06/13-31/3/14)	**100-105**	**200**	**1**	**105-110**	**125-130**					

Enw a Theitl	2013/14					2012/13				
	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	**Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** £	**Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** £'000	**Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf)** £'000	**Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol)** £'000	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol) £'000
Mr C Sparkes Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Gofal Iechyd Dros Dro (01/04/13-21/04/13)	**10-15**	**0**	**(18)**	**(5-10)**	**95-100**	55-60	0	32	85-90	130-135
Mr J Day Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Gofal Iechyd Dros Dro (15/05/13-30/09/13)	**35-40**	**0**	**11**	**45-50**	**95-100**					
Mr J M Jones Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	**125-130**	**0**	**(5)**	**120-125**		125-130	1,000	(32)	90-95	
Mr A Jones Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	**120-125**	**0**	**(1)**	**120-125**		120-125	0	(24)	100-105	
Mr N Bradshaw Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio (01/04/13-13/03/14) Cyfarwyddwr Cyfalaf ac Ystadau Dros Dro (13/03/14-31/03/14)	**125-130**	**900**	**4**	**125-130**	**125-130**	125-130	700	(12)	115-120	

Enw a Theitl	2013/14					2012/13				
	Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000**	**Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** **£**	**Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** **£'000**	**Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf)** **£'000**	**Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol)** **£'000**	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol) £'000
Ms S Baxter Cyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro (13/03/14-31/03/14)	**0-5**	**0**	**10**	**10-15**	**80-85**					
Mrs G Lewis-Parry Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu	**95-100**	**1,500**	**1**	**95-100**		95-100	3,000	(15)	80-85	
Mrs J Newman Cyfarwyddwr Gwella a Chefnogi Busnes Dros Dro (01/04/13-30/09/13)	**45-50**	**0**	**66**	**80-85**	**95-100**	0-5	0	(16)	(10-15)	80-85
Mr T Lynch** Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro (01/10/13-31/03/14)	**75-80**				**155-160**					
Yr Athro R M Jones Cadeirydd (01/04/13-06/10/13)	**35-40**	**0**	**0**	**35-40**	**65-70**	65-70	0	0	65-70	
Dr P Higson Cadeirydd (07/10/13-31/04/14)	**35-40**	**0**	**0**	**35-40**	**65-70**					

Enw a Theitl	2013/14					2012/13				
	Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000**	**Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** **£**	**Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** **£'000**	**Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf)** **£'000**	**Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol)** **£'000**	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol) £'000
Dr L Miles Is Gadeirydd (01/04/13-31/08/13)	**20-25**	**0**	**0**	**20-25**	**55-60**	55-60	0	0	55-60	
Mrs M Hanson Is Gadeirydd (06/01/14-31/03/14)	**15-20**	**0**	**0**	**15-20**	**55-60**					
Mr K McDonogh Aelod Annibynnol Is Gadeirydd Dros Dro (01/09/13-06/01/14)	**25-30**	**0**	**0**	**25-30**	**15-20** **55-60**	15-20	0	0	15-20	
Mr H Owen-Jones Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**15-20**		15-20	0	0	15-20	
Y Parch H Meredydd-Davies Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**15-20**		15-20	0	0	15-20	
Mrs H Stevens Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**15-20**		15-20	0	0	15-20	
Dr C Tillson Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**15-20**		15-20	0	0	15-20	

Enw a Theitl	2013/14					2012/13				
	Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000**	**Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf)** **£**	**Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf)** **£'000**	**Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf)** **£'000**	**Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol)** **£'000**	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) £	Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyfanswm (i'r £1,000 agosaf) £'000	Cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn (os blwyddyn rannol) £'000
Mrs M W Jones Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**15-20**		15-20	0	0	15-20	
Y Cyng E M B Roberts Aelod Annibynnol	**15-20**	**0**	**0**	**15-20**		15-20	0	0	15-20	
Ms J Dean *** Aelod Annibynnol	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**	0	0	0	0	0

Mae'r cyflog yr adroddwyd arno ar gyfer Mrs M Burrows yn cynnwys taliad o £200,000 mewn perthynas â Chytundeb Setliad oherwydd iddi gadael swydd y Prif Weithredwr ar 16 Rhagfyr 2013 a thaliad o £68,817 mewn perthynas â'i hawl contractiol i daliad yn lle cyfnod rhybudd. Cytunodd y Bwrdd ar delerau'r pecyn gadael hwn, a chafodd ei wneud yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

* Talwyd cyflog Dr M Duerden fel Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro ar gyfradd flynyddol o £145,000-£150,000 fel dangoswyd uchod. Dylai fod y gydnabyddiaeth ariannol wedi cael ei thalu ar gyfradd flynyddol o £165,000-£170,000 ac felly mae ôl-daliad o £10,000-£15,000 yn daladwy yn 2014/15.

** Ar hyn o bryd mae Mr T Lynch ar secondiad o'i swydd barhaol ag Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Iarlles Caer. Cost y cyfnod secondiad uchod i'r Bwrdd Iechyd yw £78,978.

*** Mae Ms Dean yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd a hi yw Cynrychiolydd Undeb Llafur y Bwrdd.

Eleni am y tro cyntaf, rhaid i'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol gynnwys Un Cyfanswm Cydnabyddiaeth, derparwyd ffigwrau cymharol y flwyddyn flaenorol ar gyfer 2012/13.

Dyma ffordd wahanol o gyflwyno'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer pob unigolyn ar gyfer y flwyddyn. Mae'r tabl a ddangoswyd yn debyg i'r hyn ddefnyddiwyd yn flaenorol, ac nid yw'r elfennau cyflog a buddion mewn nwyddau wedi newid. Mae swm y buddion pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at yr un ffigwr cyfanswm yn cael ei gyfrifo mewn ffordd newydd, yn debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd at ddibenion treth, ac mae wedi'i seilio ar wybodaeth oddi wrth Asiantaeth Bensiynau AGB y GIG.

Mae gwerth y buddion pensiwn yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn: (cynnydd go iawn mewn pensiwn* x 20) + (cynnydd go iawn mewn unrhyw gyfandaliad) – (cyfraniadau gan yr aelod)
* ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant a / neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddiad hawliau pensiwn.

Nid hwn yw'r swm a dalwyd i unigolyn gan y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn, mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadau ar y ffigyrau hyn e.e. newidiadau i gyflog unigolyn, p'un a fydd ef/hi'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol at y cynllun pensiwn o'i gyflog/chyflog a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.

Cymhareb Tâl Teg Hutton

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn ei sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Band cydnabyddiaeth ariannol uchaf y cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf yn y BILl yn y flwyddyn ariannol 2013/14 oedd £200,000 - £205,000 (2012/13: £200,000 - £205,000). Roedd hyn 7.28 gwaith (2012/13: 7.62) cydnabyddiaeth ariannol canolrifol y gweithlu, sef £27,802 (2012/13: £26,558).

Yn 2013/14, cafodd tri (2012/13: pump) gweithiwr gydnabyddiaeth ariannol fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf. Roedd cydnabyddiaeth ariannol y tri gweithiwr yn amrywio o £200,000 - £225,000 (2012/13: £205,000 - £235,000); uwch glinigwyr oedd y tri gweithiwr hyn.

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, tâl heb ei gydgrynhoi sy'n gysylltiedig â pherfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerth cyfatebol trosglwyddo i arian pensiynau

Mae'r gymhareb wedi lleihau yn ystod 2013/14 oherwydd bod y gydnabyddiaeth ariannol canolrifol wedi cynyddu ond nid yw cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf wedi newid. Rhoddwyd codiad cyflog 1% i bobl aelod o staff GIG ac eithrio rheolwyr uchel iawn; felly cafodd 99.90% o staff godiad cyflog chwyddiannol, a chafodd 43.6% o'r staff parhaol ddatblygiad cyflog cynyddrannol o fewn eu graddfeydd cyflog.

Mae cyfanswm nifer y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn wedi parhau yn weddol gyson. Mae nifer y staff asiantaeth sy'n cael eu cyflogi wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn.

Buddion Pensiynau

Enw a Theitl	Gwir Gynnydd mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) £'000	Gwir Gynnydd mewn Cyfandaliad (bandiau o £2,500) £'000	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2014 (bandiau o £5,000) £'000	Pensiwn yn ymwneud â chyfandaliad ar 31 Mawrth 2014 (bandiau o £5,000) £'000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31/03/14 £'000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31/03/13 £'000	Gwir Gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £'000	Cyfraniad y Cyflogwr at Bensiwn Cyfranddeiliaid £'000
Mrs M Burrows Prif Weithredwr (01/04/13-16/12/13)	2.5-5	7.5-10	50-55	155-160	0	1,040	h/b	0
Mr G Lang Prif Weithredwr Dros Dro (27/05/13-31/03/14) Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cychwynnol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (01/04/13-31/03/14)	10-12.5	30-32.5	55-60	170-175	972	773	199	0
Mrs H Simpson Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid (01/04/13-28/10/13)	0-2.5	2.5-5	50-55	150-155	898	830	68	0
Mr B Evans Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro (29/10/13-31/03/14)	5-7.5	20-22.5	45-50	135-140	1,000	824	176	0
Mr M Scriven Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol (01/04/13-05/09/13)	(10-12.5)	(35-37.5)	50-55	160-165	1,091	1,298	-207	0

Enw a Theitl	Gwir Gynnydd mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) £'000	Gwir Gynnydd mewn Cyfandaliad (bandiau o £2,500) £'000	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2014 (bandiau o £5,000) £'000	Cyfanddaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2014 (bandiau o £5,000) £'000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31/03/14 £'000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31/03/13 £'000	Gwir Gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £'000	Cyfraniad y Cyflogwr at Bensiwn Cyfranddeiliaid £'000
Yr Athro M Makin Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol (01/01/14-31/03/14)	2.5-5	10-12.5	35-40	110-115	579	506	73	0
Mrs R Cartmell Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion Dros Dro (01/04/13-31/05/13)	5-7.5	15-17.5	25-30	85-90	524	421	103	0
Mrs A Hopkins Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion (01/06/13-31/03/14)	0-2.5	0-2.5	35-40	110-115	808	770	38	0
Mr C Sparkes Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Gofal Iechyd Dros Dro (01/04/13-21/04/13)	(0-2.5)	(0-2.5)	55-60	170-175	0	1,257	h/b	0
Mr J Day Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Gofal Iechyd Dros Dro (15/05/13-30/09/13)	0-2.5	2.5-5	35-40	105-110	615	580	35	0

Enw a Theitl	Gwir Gynnydd mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) £'000	Gwir Gynnydd mewn Cyfandaliad (bandiau o £2,500) £'000	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2014 (bandiau o £5,000) £'000	Cyfanddaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2014 (bandiau o £5,000) £'000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31/03/14 £'000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31/03/13 £'000	Gwir Gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £'000	Cyfraniad y Cyflogwr at Bensiwn Cyfranddeiliaid £'000
Mr J M Jones Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	0-2.5	0-2.5	45-50	145-150	955	917	38	0
Mr A Jones Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	0-2.5	0-2.5	40-45	120-125	704	674	30	0
Mr N Bradshaw Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio (01/04/13-13/03/14) Cyfarwyddwr Cyfalaf ac Ystadau Dros Dro (13/03/14-31/03/14)	0-2.5	2.5-5	30-35	95-100	681	643	38	0
Ms S Baxter Cyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro (13/03/14-31/34/14)	0-2.5	2.5-5	10-15	40-45	263	240	23	0
Mrs G Lewis-Parry Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfathrebu	0-2.5	0-2.5	25-30	85-90	564	538	26	0

Enw a Theitl	Gwir Gynnydd mewn Pensiwn Cronedig (bandiau o £2,500) £'000	Gwir Gynnydd mewn Cyfandaliad (bandiau o £2,500) £'000	Cyfanswm y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2014 (bandiau o £5,000) £'000	Cyfanddaliad yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2014 (bandiau o £5,000) £'000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31/03/14 £'000	Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31/03/13 £'000	Gwir Gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod £'000	Cyfraniad y Cyflogwr at Bensiwn Cyfranddeiliaid £'000
Mrs J Newman Cyfarwyddwr Gwella a Chefnogi Busnes Dros Dro (01/04/13-30/09/13)	2.5-5	7.5-10	30-35	95-100	617	539	78	0

Nodiadau:

Dr M Duerden oedd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol Dros Dro rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Rhagfyr 2013. Oherwydd bod Dr Duerden wedi bod yn Feddyg Teulu yn y Gorffennol, nid yw Pensiynau'r GIG yn gallu darparu manylion buddion pensiwn ar wahân ar gyfer gwasanaeth Bwrdd Iechyd aelod o'r Bwrdd sydd hefyd wedi bod yn ymarferydd gofal cychwynnol.

Roedd Dr P Birch yn Gyfarwyddwr Meddygol Dros Dro rhwng Hydref 2013 a Rhagfyr 2013. Nid yw Dr Birch yn aelod o Gynllun Pensiynau'r GIG.

Gwerth Cyfatebol Trosglwyddo i Arian ar 31/03/14 ar gyfer Mrs M Burrows a Mr C Sparkes yw DIM; bellach mae'r ddau yn derbyn eu pensiynau.

Adroddiad yr Archwilwyr

Archwilydd Allanol statudol y Bwrdd Iechyd yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gwneir y gwaith archwilio allanol ar ei ran gan staff Swyddfa Archwilio Cymru (SAC).

Roedd y gwaith a gyflawnwyd gan SAC yn cynnwys archwilio'r Datganiadau Ariannol am y cyfnod 1Ebrill 2013 – 31Mawrth 2014 yn ogystal â darparu barn ar drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau gwerth am arian. Ffi'r archwiliad ar gyfer 2013/14 oedd £477,000.

Datganiad y Cyfarwyddwyr ar Ddatgeliadau Archwilio

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwyr eu bod wedi cymryd pob cam y dylid ei gymryd, fel Cyfarwyddwyr, i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sicrhau bod Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyn belled â'u bod yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni.

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Atebol

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol y BILl.

Manylir ar gyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus maent yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, ym Memorandwm Swyddogion Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a chred, rwyf wedi cyflawni yn briodol y cyfrifoldebau y manylwyd arnynt yn fy llythyr penodi yn Swyddog Atebol.

Mr Geoff Lang
Prif Weithredwr Dros Dro

7 Mehefin 2013

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Datganiadau Ariannol Cryno

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno sydd yn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar dudalennau 31 i 36.

Cyfrifoldebau perthnasol y Swyddog Atebol a'r Archwilydd

Y Swyddog Atebol sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw rhoi fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno â'r datganiadau ariannol statudol, a rhan yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol y gellir ei archwilio. Rwyf hefyd wedi darllen y wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol â'r crynodeb o ddatganiadau ariannol a'r datganiadau ariannol llawn.

Sail y farn

Rwyf wedi gwneud fy ngwaith yn unol â Bwletin 2008/3 'Datganiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol cryno' a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Barn

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol cryno'n gyson â'r datganiadau ariannol statudol a rhan adroddiad cydnabyddiaeth ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr y gellir ei archwilio ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31Mawrth 2014 yr wyf wedi rhoi barn ddiamod arnynt.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiad yr arwyddais f'adroddiad ar y datganiadau ariannol llawn 24 Mehefin 2014 a dyddiad y datganiad hwn.

Rhoddais adroddiad naratif ar y cyfrifon yn dwyn sylw at y £2.25 miliwn o froceriaeth adnoddau ad-daladwy a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr arian ychwanegol hwn yn golygu bod y Bwrdd Iechyd wedi bodloni ei derfyn adnoddau ac, o ganlyniad, felly mae fy marn 'golwg gwir a theg' a'm barn 'rheoleidd-dra' yn ddiamod.

Mae fy adroddiad naratif hefyd yn darparu manylion pellach am sefyllfa ariannol heriol y Bwrdd Iechyd a'i fethiant i ddatblygu cynllun tymor canolig, integredig, tair blynedd, treiglol, wedi'i gymeradwyo 2014/15. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi pryderon sylweddol â'r cynllun arfaethedig oherwydd nad oedd yn bodloni ei ofynion ac mae angen gwaith pellach helaeth. O ganlyniad, roedd y Bwrdd Iechyd yn torri'r ddyletswydd statudol newydd hon. Ar gyfer 2014/15, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun un flwyddyn, i gytuno arno ar lefel Swyddog Atebol. Gellir dod o hyd i'm hadroddiad naratif llawn gyda'r datganiadau ariannol statudol.

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol amdani, yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn a chryno.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
11 Awst 2014

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Os oes angen copi o'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2013/14 mewn fformat arall arnoch h.y. print bras, neu os hoffech gopi caled, cysylltwch â'r:

Uned Gyfathrebu
Ysbyty Gwynedd
Penrhosgarnedd
Bangor
Gwynedd
LL57 2PW

(01248) 384776

Mae fersiwn PDF llawn ar gael ar ein gwefan hefyd:

www.pbc.cymru.nhs.uk